Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# Tlodi Plant yng Nghymru: Ai Addysg yw'r Ated?

November 2008

Gellir cael copïau caled pellach o'r adroddiad hwn a chopïau fformat amgen oddi wrth:

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Gwasanaeth y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8149
E-bost: Linda.heard@wales.gsi.gov.uk

Ceir copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Pwyllgor:
http://www.cynulliadcymru.org

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
Tom Jackson – Clerc Pwyllgor
Rita Phillips – Dirprwy Glerc Pwyllgor
Linda Heard – Swyddog Cymorth y Pwyllgor

**Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau**
Kathryn Potter – Arbenigwr y Pwyllgor

**Gwasanaeth Cyfreithiol yr Aelodau**
Helen Roberts – Cynghorydd Cyfreithiol

| CYNNWYS | | TUDALEN |
|---|---|---|
| | | |
| Aelodau'r Pwyllgor | | |
| Cyflwyniad y Cadeirydd | | 1 |
| Cyflwyniad a Chefndir | | 2 |
| Y Cyd-destun Polisi Strategol | | 5 |
| Y Cyd-destun Deddfwriaethol | | 7 |
| Materion Allweddol ac Argymhellion: | | 9 |
| • Thema 1: Yr angen am gyfeiriad strategol cenedlaethol cydlynol | | 11 |
| • Thema 2: Swyddogaeth ysgolion o ran lliniaru effeithiau tlodi plant | | 19 |
| • Thema 3: Y ffaith "na all ysgolion wneud hyn heb gymorth" | | 28 |
| Atodiad 1 | Crynodeb o Argymhellion | 31 |
| Atodiad 2 | Cylch Gorchwyl<br>Rhestr o'r dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a dderbyniwyd | 35 |

## AELODAU'R PWYLLGOR



**Helen Mary Jones AC**
**Cadeirydd**

Llanelli

**Plaid Cymru**



**Eleanor Burnham AC**

Gogledd Cymru

**Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**



**Angela Burns AC**

Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro

**Plaid Geidwadol Cymru**



**Christine Chapman AC**

Cwm Cynon

**Llafur**



**Lynne Neagle ACM**

Tor-faen

**Llafur**

**CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD**




"Dwi'n unigolyn ifanc sy'n byw mewn tlodi. Ydw i'n cael fy eithrio oherwydd tlodi neu a yw tlodi'n fy eithrio i"? Gall tlodi gael effaith ddifrifol ar blant, eu teuluoedd, a chymdeithas yn gyffredinol. Gall greu problemau i blant o ran eu haddysg, eu cyflogaeth a'u rhyngweithio cymdeithasol. Mae Tlodi Plant yn broblem enfawr, cymaint felly fel bod ei ddileu yn gallu ymddangos yn amhosibl. Bydd gofyn torri'r traddodiad o dlodi sydd wedi effeithio ar genhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o'r un teulu.

Fodd bynnag, nid yw Tlodi Plant yn anochel. Mae cymorth trawsbleidiol ar gael i frwydro yn ei erbyn, a gwneir cynnydd i'w ddileu. Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu polisïau arloesol sydd â'r nod o alluogi plant i ddianc rhag crafangau tlodi. Mae rhai mentrau wedi gweithio'n dda ac fe ddylem ddathlu'r llwyddiannau hyn.

Eto i gyd mae llawer o'r dystiolaeth a gasglwyd yn yr ymchwiliad hwn yn awgrymu bod cynnydd yn y gwaith o ddileu Tlodi Plant yng Nghymru wedi bod yn fratiog ers cryn amser, ac wedi arafu yn y blynyddoedd diwethaf. Felly, rwy'n falch bod Llywodraeth y Cynulliad, wrth i'r ymchwiliad hwn fynd yn ei flaen, wedi lansio ymgynghoriad ar ddyletswydd ar bob asiantaeth neu gorff cyhoeddus i ddangos eu bod yn gweithio i ddileu Tlodi Plant. Gallai'r ddyletswydd hon sicrhau bod y gwaith o ddileu Tlodi Plant yn flaenoriaeth mewn amrywiaeth o sefydliadau - o Ymddiriedolaethau'r GIG i Gynghorau'r Celfyddydau. Dim ond trwy ymdrechion cydgysylltiedig o'r fath y gallwn ni obeithio gwireddu'r freuddwyd o ddileu Tlodi Plant.

Mynegodd nifer o'n tystion bryderon hefyd am ddiffyg cydgysylltiad strategol Llywodraeth y Cynulliad yn ei chynlluniau i fynd i'r afael â Thlodi Plant. Nid oes gan unrhyw un Gweinidog neu Adran y Llywodraeth gyfrifoldeb dros Dlodi Plant - mae'r rhan o sawl portffolio. Nid oes fawr o werth i blentyn gael mynediad am ddim i bwll nofio os nad oes trafnidiaeth ar gael iddo fynd yno, os ydyw'n rhy sâl i adael y tŷ, neu os oes angen iddo aros adref i ofalu am riant. Mae angen i bob portffolio Gweinidogol, boed yn bortffolio Iechyd neu Dreftadaeth, roi pwyslais cadarn ar ddileu Tlodi Plant.

Mae ymchwiliad cyfredol y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wedi canolbwyntio'n bennaf ar Dlodi Plant mewn perthynas â'r Portffolio Addysg. Yn y dyfodol, fodd bynnag, rydym yn bwriadu craffu ar gynnydd portffolios Gweinidogol eraill i fodloni'u targedau ar gyfer dileu Tlodi Plant. Y Portffolio Addysg oedd y man cychwyn priodol, o ystyried ei effaith ar bob plentyn. Hyderaf y gall y gwersi a ddysgwyd wrth ystyried y portffolio hwn gael eu defnyddio mewn meysydd polisi eraill hefyd. Rwyf yn ddiolchgar i bawb a gyflwynodd dystiolaeth i'r Pwyllgor ac a'n cynorthwyodd gyda'n trafodaethau. Hefyd, hoffwn ddiolch i Ann Jones a oedd yn ddirprwy rheolaidd ar y Pwyllgor, ac a wnaeth gyfraniad gwerthfawr i'r adroddiad hwn. Dim ond trwy gydgysylltu polisïau a blaenoriaethau Gweinidogol y gellir dileu Tlodi Plant.



**Helen Mary Jones**
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

1. Mae tlodi plant wedi bod yn destun pryder ers amser maith yng Nghymru. ‘Gwarth cenedlaethol’ oedd y geiriau a ddefnyddiodd Peter Clarke yn ei adroddiad blynyddol cyntaf fel Comisiynydd Plant Cymru am fod traean o blant Cymru yn byw mewn tlodi ac mae dros chwe blynedd ers hynny.

2. Ym 1999, dangosodd Llywodraeth y DU ei hymrwymiad i haneru tlodi plant erbyn 2010 (o gymharu â lefelau 1997) a’i ddileu erbyn 2020. Mabwysiadodd Llywodraeth y Cynulliad y targedau hyn ar gyfer Cymru.

3. Er nad yw rhai meysydd polisi perthnasol (megis y system budd-daliadau a threthi) wedi’u datganoli, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gweithredu ei mentrau polisi ei hun i fynd i’r afael â thlodi plant. Ym mis Chwefror 2005, cyhoeddodd ei strategaeth tlodi plant *Dyfodol Teg i’n Plant*. Mae’r ddogfen hon yn amlinellu sut y mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cyfrannu at dargedau Llywodraeth y DU i haneru a dileu tlodi plant. Gwnaeth Llywodraeth y Cynulliad hefyd baratoi’r ddogfen *Cael Gwared ar Dlodi Plant yng Nghymru - Mesur Llwyddiant* (2006), sy’n pennu’r cerrig milltir a’r targedau i fesur cynnydd tuag at ddileu tlodi plant, a’r *Cynllun Gweithredu Tlodi Plant* (2006), sy’n rhoi manylion y cynigion a luniwyd i gynorthwyo i fodloni’r amcanion yn y strategaeth tlodi plant. Mae’r Strategaeth yn ei gwneud yn glir bod:

> “Llywodraeth y Cynulliad yn cadarnhau ei hymrwymiad i ddileu tlodi plant erbyn 2020, ac mae’n barod i fod yn atebol am y camau y mae’n eu cymryd ochr yn ochr â’i phartneriaid”.

4. Mae’r ymrwymiad hwn yn cael ei ailadrodd yn y rhaglen lywodraethu *Cymru’n Un* (Llafur a Phlaid Cymru 2007)[1] sy’n dweud:

> “Byddwn yn cefnogi’r nod o haneru tlodi ymhlith plant erbyn 2010 a diddymu tlodi ymhlith plant erbyn 2020”.

5. Roedd *Cymru’n Un* yn ymrwymo Llywodraeth y Cynulliad hefyd i ddatblygu atebion penodol i Gymru ac integreiddio strategaethau gyda rhaglenni priodol sydd, ar hyn o bryd, o fewn cymhwysedd Llywodraeth y DU.

6. Nid oes yna ddiffiniad cyffredinol o dlodi plant. Y mesur o dlodi plant a ddefnyddir fwyaf yn y DU yw’r gyfran o blant sy’n byw ar aelwydydd gydag incwm sy’n llai na 60% o’r cyfartaledd. Yn 2006/07, roedd 29% o blant Cymru yn perthyn i’r grŵp hwn, o gymharu â 30% o blant yn Lloegr, 25% yn yr Alban a 26% yng Ngogledd Iwerddon. Ym mis Gorffennaf 2008, dywedodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol:

> “Yn dilyn llwyddiant arwyddocaol i wrth-droi'r cynnydd mewn tlodi plant, mae'n amlwg bod y duedd hon wedi arafu”.[2]

7. Yn dilyn proses graffu ym mis Mawrth 2008 gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, sy’n ysgwyddo’r cyfrifoldeb dros dlodi plant, penderfynodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc gynnal

---

[1] Llywodraeth Cynulliad Cymru *Cymru’n Un*, Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru. Cytundeb rhwng Grŵp Llafur a Grŵp Plaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol , 27 Mehefin 2008

[2] Llywodraeth Cynulliad Cymru Brian Gibbons (y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol), *Y Newyddion Diweddaraf am Dlodi Plant* , Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, 16 Gorffennaf 2008

ymchwiliad i'r gwaith o gyflawni *Cynllun Gweithredu Tlodi Plant* Llywodraeth y Cynulliad a'i dargedau ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant.

**Cylch Gorchwyl**

8. Dyma'r cylch gorchwyl ar gyfer Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Dlodi Plant:

- craffu'r gwaith o gyflawni polisïau Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â thlodi plant, yn benodol, y strategaeth tlodi plant, *Dyfodol Teg i'n Plant* (Chwefror 2005) a'r *Cynllun Gweithredu Tlodi Plant* (Tachwedd 2006);

- nodi'r meysydd hynny lle mae problemau arbennig o ran gweithredu a chyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc; a,

- gwneud argymhellion ar sail tystiolaeth i Lywodraeth y Cynulliad ac eraill fel bo angen.

**Cwmpasu'r Ymchwiliad**

9. Derbyniodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc dystiolaeth gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth leol ar dlodi plant ar 6 Mawrth 2008.

10. Cynhaliwyd cyfarfod cwmpasu, a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol - Barnardo's, Plant yng Nghymru, Action for Children Cymru, Achub y Plant a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - ar 24 Ebrill 2008 i benderfynu ble gallai'r Pwyllgor ganolbwyntio ei ymchwiliad er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf.

11. Nododd yr aelodau mai un pryder arbennig a godwyd gan y tystion oedd er gwaethaf llawer o syniadau a pholisi arloesol o du'r Llywodraeth y Cynulliad, nid oedd fawr o dystiolaeth bod polisïau'n cael eu cydgysylltu'n strategol a chydlynol er mwyn mynd i'r afael â thlodi plant. Nododd yr aelodau bod Amcan 1 *Cynllun Gweithredu Tlodi Plant* (dogfen Saesneg yn unig) Llywodraeth y Cynlluniad yn datgan:

> "All new Assembly Government initiatives and new spending commitments should be subjected to child poverty proofing. As part of the policy development process the question will be asked***: "What positive impact does this proposal have on the lives of the poorest children?"*** If the answer is 'none' then the proposal should be reconsidered. If the answer is in the affirmative, the proposal will also be reconsidered, with a view to *increasing* the positive benefit to the poorest children."

12. Penderfynodd yr aelodau felly y byddent yn sicrhau bod eu hymchwiliad presennol yn canolbwyntio ar faes polisi arbennig er mwyn pennu a gafodd ei brawfesur i gael effaith sylweddol ar dlodi plant. Penderfynodd yr aelodau y byddai'r ymchwiliad cychwynnol hwn i dlodi plant yn canolbwyntio ar bortffolio addysg Llywodraeth y Cynulliad. Roeddynt o'r farn y byddai'r system addysg

yn gyffredinol yn cyffwrdd â bywydau pob plentyn ac fe wnaethant nodi, yn ystod cyfarfod cwmpasu, bod tyst wedi argymell bod y pwnc hwn yn faes addas iawn i'w ystyried. Ystyriodd y Pwyllgor efallai y byddent am gynnal ymchwiliadau tlodi plant tebyg i bortffolios polisi eraill yn y dyfodol yn dilyn yr ymchwiliad hwn.

13. Roedd y Pwyllgor yn ymwybodol bod angen osgoi dyblygu gwaith a oedd yn cael ei gyflawni gan y Grŵp Arbenigol ar Dlodi Plant, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2008, fel ymrwymiad *Cymru'n Un* o dan gadeiryddiaeth Huw Lewis AC[3].

[3]Llywodraeth Cynulliad Cymru, Brian Gibbons (Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol), *Grŵp Arbenigol ar Dlodi Plant* , Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, 16 Ebrill 2008

## Y CYD-DESTUN POLISI STRATEGOL

14. Dwy o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth y Cynulliad yw dileu tlodi plant a gwella cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc yng Nghymru.

15. Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ei strategaeth tlodi plant *Dyfodol Teg i'n Plant*[4] yn 2005. Roedd y Strategaeth yn amlinellu sut roedd Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cyfrannu at amcanion Llywodraeth y DU i haneru tlodi plant erbyn 2010, o'i gymharu â lefelau 1997, a'i ddileu yn llwyr erbyn 2020. Cyhoeddwyd y *Cynllun Gweithredu Tlodi Plant*[5] ym mis Tachwedd 2006 gyda chynigion manwl i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r amcanion yn y strategaeth tlodi plant.

16. Hefyd, gwnaeth Llywodraeth y Cynulliad baratoi dogfen o'r enw *Dileu Tlodi Plant yng Nghymru – Mesur Llwyddiant*[6] sy'n pennu'r cerrig milltir a'r targedau i fesur y cynnydd tuag at ddileu tlodi plant.

17. Cafodd y dull a fabwysiadwyd gan y strategaeth ei lywio gan ganfyddiadau adroddiad *Grŵp Gorchwyl Tlodi Plant (2004)* arbenigol a'r ymgynghoriad ar yr adroddiad hwnnw. Mae'r cyfeiriad strategol ei hun yn cael ei arwain gan egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a saith amcan craidd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc - ac un o'r rheiny yw sicrhau nad yw plant a phobl ifanc o dan anfantais oherwydd tlodi.

18. Nod y strategaeth yw bod yn 'gynhwysol a chyfannol', gan fynd i'r afael â thlodi plant trwy wasanaethau prif ffrwd, gyda chymorth wedi'i dargedu lle mae ei angen. Mae'n ymwneud â sawl portffolio Gweinidogol megis datblygu economaidd, addysg a rhaglenni gwrthdlodi megis Cymunedau yn Gyntaf.

19. Mae'r strategaeth yn defnyddio tair agwedd ar dlodi plant a nodwyd gan y Grŵp Gorchwyl Tlodi Plant: Tlodi Cyfranogiad; Tlodi Gwasanaethau; a, Thlodi Incwm. Wrth wneud hynny, nododd Llywodraeth y Cynulliad bod plant o deuluoedd tlawd yn gallu teimlo eu bod yn cael eu heithrio o weithgareddau yr oedd plant eraill yn gallu eu mwynhau ac yn cydnabod bod gwasanaethau cyhoeddus yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o dorri cylchoedd tlodi.

20. Mae nifer o bolisïau a mentrau gan Lywodraeth y Cynulliad sy'n cefnogi strategaeth a'r cynllun gweithredu tlodi plant gan gynnwys:

- Cymunedau yn Gyntaf - rhaglen wedi'i thargedu ar sail ddaearyddol a'i nod yw ceisio gwella amodau byw a rhagolygon pobl leol ac mae wedi'i thargedu at y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru;

- Cronfa Gymorth i Blant a Phobl Ifanc (Cymorth) sy'n cael ei gweinyddu trwy Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc ym mhob awdurdod lleol. Nod Cymorth yw darparu rhwydwaith o gymorth wedi'i dargedu ar gyfer plant a phobl ifanc, o fewn fframwaith o ddarpariaeth gyffredinol, er mwyn gwella cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc o deuluoedd difreintiedig; a

---

[4] Llywodraeth Cynulliad Cymru *Dyfodol Teg i'n Plant: Strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Mynd i'r Afael â Thlodi Plant* , 2005
[5] Llywodraeth Cynulliad Cymru *Cynllun Gweithredu Tlodi Plant* , Tachwedd 2006
[6] Llywodraeth Cynulliad Cymru *Dileu Tlodi Plant yng Nghymru: Mesur Llwyddiant*, Hydref 2006

- Dechrau'n Deg - grant penodol sy'n ategu Cymorth ac sydd wedi'i dargedu ar gyfer plant 0-3 oed sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae ymyriadau yn cynnwys gofal plant am ddim i rai 2 flwydd oed, ymweliadau iechyd ychwanegol a rhaglenni rhianta.

## Y CYD-DESTUN DEDDFWRIAETHOL

### Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a’r Cynigion Cyfredol ar gyfer Deddfwriaeth ar Dlodi Plant

21. Mae’r materion sy’n effeithio ar dlodi plant yn ymwneud â holl bolisïau a phortffolios Llywodraeth y Cynulliad. Yn rhinwedd *Deddf Llywodraeth Cymru 2006,* mae cyfrifoldebau sydd wedi’u datganoli i Lywodraeth y Cynulliad, megis addysg, iechyd a lles cymdeithasol, yn effeithio ar dlodi plant.

22. Mae materion nad ydynt wedi’u datganoli megis y system cyfiawnder cymdeithasol, trethu a nawdd cymdeithasol, gan gynnwys budd-daliadau plant a chredydau treth y mae Llywodraeth y DU yn parhau i ysgwyddo cyfrifoldeb amdanynt hefyd yn effeithio ar dlodi plant.

23. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi defnyddio pwerau yn sgil Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i lunio deddfau newydd, sef Mesurau, mewn perthynas â lles pob plentyn ac unigolyn ifanc, gan gynnwys plant agored i niwed, ac i fynd i’r afael â thlodi plant yng Nghymru.

24. Ceisiwyd sicrhau cymhwysedd deddfwriaethol trwy’r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar gyfer Plant Agored i Niwed a Thlodi Plant *(Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008* (Ebrill 2008), a gafodd ei gymeradwyo gan y Cynulliad ym mis Gorffennaf 2008 ac sy’n mynd rhagddo trwy’r system ddeddfwriaethol. Wrth gynnal yr ymchwiliad hwn, roedd Aelodau’r Pwyllgor yn ymwybodol o’r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol hwn a bod ei gwmpas yn cynnwys mynd i’r afael â thlodi plant.

25. Nod y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yw rhesymoli a chydgrynhoi’r darpariaethau presennol ar gyfer plant agored i niwed a darparu fframwaith cyfreithiol fel y gall Llywodraeth y Cynulliad fwrw ymlaen â’i chynigion i fynd i’r afael â thlodi plant. Er enghraifft, gall hyn gynnwys rhoi dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus i ddangos eu cyfraniad i’r gwaith o roi diwedd ar dlodi plant a chreu hawl statudol i ofal plant am ddim i blant dwy flwydd oed yn yr ardaloedd sydd â’r anghenion mwyaf.

26. Ar hyn o bryd, mae gan Weinidogion Cymru gyfrifoldebau amrywiol iawn sy’n ymwneud â maes Lles Cymdeithasol. Mae gan awdurdodau lleol a’u partneriaid statudol yng Nghymru gyfrifoldeb i ddiogelu, hyrwyddo a sicrhau lles pob plentyn ac unigolyn ifanc.

27. Roedd yr aelodau yn ymwybodol hefyd bod Llywodraeth y Cynulliad, yn ystod yr ymchwiliad, wedi lansio *Gweithredu ar Dlodi Plant* (Mehefin 2008), sef papur ymgynghori sy’n amlinellu’r cynigion i lunio deddfwriaeth ar dri mater a fyddai’n cyfrannu at roi diwedd ar dlodi plant:

- Y ddyletswydd ar asiantaethau cyhoeddus i gyfrannu at roi diwedd ar dlodi plant ac arddangos hynny;
- Y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu llefydd gofal plant am ddim a gwasanaethau eraill y blynyddoedd cynnar mewn mannau penodol; a’r

- Dyletswyddau ar awdurdodau lleol a fydd yn cyd-fynd â'r canllawiau ar gyfer darparu grant Cymorth.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 30 Medi 2008.

28. Ar 15 Gorffennaf 2008, gwnaeth Prif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan AC, ddatganiad ar *Raglen Ddeddfwriaethol 2008-09 Llywodraeth Cynulliad Cymru* gan ddweud y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu Mesur:

> "er mwyn rhoi cefnogaeth gryfach i deuluoedd a phlant sy'n dioddef o dlodi. O dan hwnnw, bydd gofyniad ar bob asiantaeth neu gorff cyhoeddus i ddangos sut y maent yn gweithio yn erbyn tlodi plant".

29. Rhagwelir Mesurau eraill ar dlodi plant yn y dyfodol.

## MATERION ALLWEDDOL AC ARGYMHELLION

### Casglu Tystiolaeth

30. Wrth gynnal eu hymchwiliad, derbyniodd Aelodau'r Pwyllgor dystiolaeth gan amrywiaeth o dystion, gan gynnwys Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad, grwpiau o blant a phobl ifanc, cynrychiolwyr llywodraeth leol, academyddion, undebau'r athrawon a sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

31. O ystyried bod yr ymchwiliad hwn yn un byr a chyfyngedig, dewisodd y Pwyllgor beidio â gofyn yn ffurfiol am dystiolaeth ysgrifenedig, er bod tystion a oedd yn rhoi tystiolaeth lafar wedi cyflwyno papurau ysgrifenedig. Derbyniwyd tystiolaeth ysgrifenedig gan nifer o randdeiliaid eraill â diddordeb. Mae Atodlen 2 yn cynnwys rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig a ddaeth i law'r Pwyllgor, a hefyd yn rhoi'r amserlen ar gyfer y chwe chyfarfod Pwyllgor lle clywyd tystiolaeth lafar. Hefyd bu dau Aelod yn ymweld â'r prosiect On Track yn Pendyrus.

32. Er mwyn osgoi defnyddio papur yn ddiangen, nid yw tystiolaeth ysgrifenedig y tystion a thrawsgrifiadau cyfarfodydd y pwyllgor wedi'u hatgynhyrchu yn yr adroddiad hwn. Defnyddir dyfyniadau rhai cyfranogwyr i egluro materion arbennig.

33. Gellir gweld papurau'r pwyllgor, trawsgrifiadau'r cyfarfodydd a thystiolaeth ysgrifenedig ar dudalen we'r Pwyllgor ar wefan Llywodraeth y Cynulliad sef: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-cyp-home.htm

### Themâu Allweddol

34. Roedd y tystion yn cytuno'n gyffredinol ar lawer o'r materion allweddol a oedd yn effeithio ar dlodi plant, er bod yr atebion arfaethedig i'r heriau hyn yn amrywio.

35. Daeth tair thema allweddol i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad, sef:

- Yr angen am gyfeiriad strategol cenedlaethol cydlynol;
- Swyddogaeth ysgolion o ran lliniaru effeithiau tlodi plant; ac
- Y ffaith 'na all ysgolion wneud hyn heb gymorth', a'r angen am fwy o bwyslais ar amrywiaeth o wasanaethau y tu allan i'r ysgol ac yn y gymuned i gynorthwyo pobl ifanc.

36. O dan bob pennawd thematig, mae ystyriaeth y Pwyllgor o'r dystiolaeth wedi'i rhannu'n is-themâu. Wrth ystyried y themâu hyn, gwnaeth yr Aelodau 27 o argymhellion ac mae Atodiad 1 yn rhoi crynodeb ohonynt.

### Materion Rhyw

37. Nid oedd rhyw yn nodwedd amlwg iawn yn y dystiolaeth. Yn ôl yr Athro David Egan, er bod tlodi yn cael effaith ar gyrhaeddiad addysgol, mae yna

faterion ynglŷn â rhyw wrth i fechgyn golli tir o ran llythrennedd.  Cyflwynodd ESTYN rai enghreifftiau lle’r oedd arian ar gyfer Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion yng Nghymru (Rhagori) yn cael ei ddefnyddio i fynd i’r afael â hyn, gydag un ysgol uwchradd yn defnyddio’r arian i wella cyrhaeddiad bechgyn trwy ddefnyddio disgyblion hŷn fel mentoriaid.

**Thema 1: Yr angen am gyfeiriad strategol cenedlaethol cydlynol**

**Diffyg Dull Strategol**

38. Roedd yr Aelodau'n ystyried ei bod yn hanfodol bod adnoddau sydd â'r pwrpas o fynd i'r afael â thlodi plant yn cael eu targedu'n effeithiol. I wneud hyn, roedd angen cyfleu blaenoriaethau yn glir a sicrhau dull strategol clir o ddileu tlodi plant.

39. Wrth roi tystiolaeth, canmolodd y tystion yr ymrwymiad yr oedd Llywodraeth y Cynulliad wedi'i ddatgan i fynd i'r afael â thlodi plant. Roedd nifer o'r tystion yn canmol syniadau a pholisïau arloesol Llywodraeth y Cynulliad.

40. Fodd bynnag, roedd sawl tyst yn ystyried nad oedd gan Gymru ddull cyfoes, clir a chydlynol o fynd i'r afael â thlodi plant. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar lefel bersonol, dywedodd Huw Lewis AC, Cadeirydd y Grŵp Arbenigol ar Dlodi Plant yng Nghymru, er bod y *Cynllun Gweithredu Tlodi Plant* yn mynd yn ôl i 2006, ni chafwyd fawr o weithredu ar y cynllun.

41. Yn yr un modd, dywedodd yr Athro David Egan:

> "…yn y byd byrbwyll a'r amgylchedd polisi toreithiog sydd wedi datblygu ar ôl datganoli pŵer i Gymru, nid yw synergedd ac integreiddio polisïau wedi bod yn nodweddion amlwg bob amser. Mae'n debygol mai Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth y Cynulliad fyddai'r cyntaf i gydnabod y gwendid hwn yn yr agenda bolisi".

42. Ailadroddwyd y pwynt hwn gan Gymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) a ddywedodd:

> "Defnyddiodd [David Egan] y term academaidd 'synergedd', ac fe ddwedwn i mai'r hyn sydd ei angen yw meddwl cydgysylltiedig a phobl yn cydweithio, ac mae angen edrych ar y gwahanol bolisïau a dod â nhw at ei gilydd. Mae gennym gasgliad o syniadau, ond dwi ddim yn credu bod yr arweinwr yn rhoi cyfeiriad strategol ar hyn o bryd".

43. Yn yr un modd, roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn ystyried bod angen pennu blaenoriaethau ac eglurder yn fframwaith polisïau cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad, gan argymell llunio 'map llwybrau' trwy'r rhain er mwyn gallu dileu tlodi plant. Roedd Achub y Plant yn bryderus hefyd y gallai diffyg gweledigaeth strategol olygu bod adnoddau yn cael eu targedu'n aneffeithiol.

44. Roedd yr Aelodau'n pryderu oherwydd er gwaethaf ymrwymiadau sydd wedi'u hen sefydlu gan un Llywodraeth y Cynulliad ar ôl y llall, roedd y pryderon hyn yn dangos diffyg eglurder ynglŷn â chynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant a sicrhau bod pobl yn cael gwybod am y cynlluniau. Cafodd datganiad ysgrifenedig y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ym mis Gorffennaf 2008 ei nodi a'i

groesawu gan yr Aelodau.  Roedd y datganiad yn cydnabod bod y cynnydd tuag at ddileu tlodi plant wedi arafu. Meddai'r Gweinidog:

> "Rydym wedi gwneud cynnydd da ond mae angen i ni wneud mwy eto, yn enwedig gan fod y ffigurau diweddar yn dangos bod cynnydd yn arafu. Mae'n hanfodol ein bod ni'n ymdrechu o'r newydd i wella cyfleoedd bywyd ein holl bobl ifanc. Rhaid i ni barhau i dargedu'r achosion ac ymdrin ag effeithiau tlodi, gan gydweithio ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol".

45. Nododd yr Aelodau awgrymiadau'r tystion y dylid cael gwell eglurder a chydgysylltiad ym mholisïau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant. Awgrymodd sawl Corff Anllywodraethol, gan gynnwys Cyngor Ar Bopeth Cymru, y dylid sefydlu Uned Tlodi Plant newydd fel rhan o Lywodraeth y Cynulliad, a fyddai'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb am bennu a sicrhau cyfeiriad strategol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant ym mhob rhan o'r llywodraeth.

46. Nododd yr Aelodau hefyd fod un tyst, Achub y Plant, yn awgrymu y dylid cael mwy o adnoddau'r gwasanaeth sifil yn Uned Tlodi Plant Llywodraeth y Cynulliad sy'n bodoli eisoes, er mwyn galluogi swyddogion ychwanegol i ganolbwyntio'n llwyr ar gydgysylltu polisïau i fynd i'r afael â thlodi plant. Dywedodd Achub y Plant:

> "rydym ar ddeall bod yna un swyddog arweiniol yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar dlodi plant a bod yna Grŵp Arbenigol yn cyfarfod 3 gwaith y flwyddyn.  Nid yw'r lefel hon o adnoddau yn adlewyrchu mater cymdeithasol pwysig nac un o brif flaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad"!

47. Hefyd, roedd yr Aelodau o'r farn y gallai fod yn ddefnyddiol ailwampio *Strategaeth a Chynllun Gweithredu Tlodi Plant* Llywodraeth y Cynulliad er mwyn ystyried mentrau newydd.

48. Awgrymodd tystion yr undebau llafur y dylid ymgysylltu mwy â gweithwyr proffesiynol rheng flaen, gan gynnwys undebau'r athrawon, yn ystod camau cynnar datblygu polisi er mwyn cael polisi a fyddai'n fwy cydgysylltiedig â staff y rheng flaen sef, y rhai a fyddai'n gyfrifol am weithredu mentrau newydd. Awgrymodd yr NASUWT:

> "Mae'n well i ni fod yn gwbl gysylltiedig â'r gwaith o'r cychwyn, ac yn ystod y cyfnod cyn ymgynghori hefyd, fel y gall rhai o'r anawsterau sy'n ymwneud â'r mentrau gael eu datrys cyn eu bod yn datblygu'n broblemau".

49. Roedd yr Aelodau'n cytuno â'r pwynt hwn ac yn ystyried bod angen i Lywodraeth y Cynulliad fod yn fwy eglur ynglŷn â'i disgwyliadau o bobl yn y gwasanaethau rheng flaen, ac y gallai ymgysylltu â nhw'n gynnar fel hyn fod yn ddefnyddiol.

50. Mewn perthynas â chydgysylltu polisïau addysg yn benodol, nododd yr Aelodau bod yna dystiolaeth gadarnhaol ynglŷn â photensial y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion sydd wedi'i lunio i sicrhau bod polisïau yn gydnaws ac i ddwyn ynghyd raglenni gweithredu ar gyfer gwella ysgolion. Er enghraifft, dywedodd yr Athro David Egan:

“Mae yna faterion sy’n ymwneud â gwahanol ffrydiau polisi, o fewn maes addysg hyd yn oed - heb edrych ar draws portffolios, sy’n fater enfawr arall - ac mae yna syndod o ran a oes rhyw fath o rym ar gyfer uno sydd wir yn canolbwyntio’r polisïau hynny, lle maent yn sensitif o ran tlodi plant, mewn ffordd sydd wir yn ceisio gweithio tuag at dargedau tlodi plant. Dwi o’r farn bod y mater hwnnw yn un mor amlwg yng Nghymru ag y mae mewn gweinyddiaethau eraill yn ôl pob tebyg. Yr hyn sy’n galonogol yw'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion”.

51. Nododd y tystion bod y Fframwaith yn fenter gymharol newydd ond y dylai ei nod o gyflawni dull cydgysylltiedig a chyfannol, mewn egwyddor, arwain at leihau’r bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol. Yn wir, dywedodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y byddai’r fframwaith yn mynd i’r afael â’r:

“ffactorau hynny sy’n arwain at yr anghydraddoldebau sydd gennym o hyd o fewn a rhwng ysgolion, rhwng awdurdodau lleol, rhwng cymunedau, a rhwng plant”.

52. Cafwyd ambell rybudd gan dystion oherwydd bod y Fframwaith yn gymharol newydd, gyda’r Gymdeithas Athrawon a Darlithwyr (ATL) yn dweud bod yr adborth cychwynnol ar y Fframwaith yn dal yn lled gymysg. Pan ofynnwyd beth oedd yn rhwystro llwyddiant y Fframwaith ar y dechrau, dywedodd yr NASUWT bod angen i ysgolion fod yn hyderus yng ngallu’r bobl hynny a oedd yn mynd i ysgolion ac yn edrych arnynt. Roedd Dr Phillip Dixon, ATL, yn cytuno a dywedodd:

“…rydych chi am weld pobl sy’n hyrwyddwyr ym maes effeithiolrwydd ysgolion, sy’n gwybod am beth maen nhw’n sôn, ac sydd wedi cael rhywfaint o brofiad ohono. Hefyd, ynglŷn â phwynt a wnaed yn gynharach, ni chafodd y cychwyn gorau posibl. Deilliodd y syniad o’r Cynulliad ac fe’i rhannwyd gydag awdurdodau lleol ac yna gydag undebau’r penaethiaid, ond bu’n rhaid i ni ymladd i gael lle o amgylch y bwrdd, ac roedd yna wall yn y glasbrint gan nad oedd yn cydnabod bod yn rhaid i’r athrawon eu hunain fod yn rhan annatod o unrhyw raglen effeithiolrwydd ysgol”.

53. Wrth ystyried y dystiolaeth hon, daeth yr Aelodau i’r casgliad bod y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion yn ddull gwerthfawr i’w ddefnyddio i gydgysylltu polisïau addysg yn strategol tuag at ddileu tlodi plant.

**Argymhellodd y Pwyllgor bod:**

**1. Llywodraeth y Cynulliad Cymru yn sicrhau mwy o adnoddau mewnol sydd wedi’u neilltuo ar gyfer cydgysylltu polisïau sy’n effeithio ar dlodi plant. Dylai hyn gynnwys mwy o staff ar gyfer ei Huned Tlodi Plant i gydgysylltu polisïau sy’n mynd i’r afael â thlodi plant. Hefyd, dylai gynnwys uwch swyddog arweiniol polisi, ym mhob Adran, i fod yn gyfrifol am gyflawni targedau adrannol perthnasol o fewn ‘*Dileu Tlodi Plant yng Nghymru - Mesur Llwyddiant’.***

**2. Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau cyfranogiad gweithwyr proffesiynol rheng flaen (gan gynnwys undebau'r athrawon) cyn gynted â phosibl yn y broses datblygu polisi, yn hytrach na dim ond trwy ymgynghori ffurfiol ar ôl datblygu polisi.**

**3. Llywodraeth y Cynulliad yn paratoi Strategaeth a Chynllun Gweithredu Tlodi Plant wedi'u diweddaru a'u hailwampio, gan ystyried mentrau newydd a newidiadau mewn rhaglenni sy'n bodoli eisoes, megis Cymunedau yn Gyntaf a Chymunedau Nesaf.**

**Prif ffrydi a Phrawfesur Tlodi Plant**

55. Roedd y tystion yn cytuno na ellid mynd i'r afael â thlodi plant trwy fentrau wedi'u targedu yn unig, er bod yna fanteision penodol i'r rhain. Yn hytrach, roedd angen dull a oedd yn prif ffrydio tlodi plant o fewn ac ar draws pob maes polisi.

56. Felly roedd y tystion yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i brawfesur ei holl bolisïau newydd fel y manylir yn Amcan 1 y *Cynllun Gweithredu Tlodi Plant.* Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol bod llawer o gynigion y cynllun a gyhoeddwyd yn 2006 wedi'u datblygu gan gynnwys:

> "prawfesur polisïau a rhaglenni strategol o safbwynt tlodi plant trwy ddiwygiadau i Offeryn Porth i Bolisïau Llywodraeth y Cynulliad".

57. Dywedodd y Gweinidog hefyd bod yr Offeryn yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r rhaglen *Cymru'n Un* sef y byddai mynd i'r afael â thlodi plant yn rhan annatod o'r Offeryn newydd, ac y byddai'r holl raglenni newydd yn cael eu prawfesur er mwyn sicrhau eu bod yn darparu manteision cadarnhaol i'r plant tlotaf.

58. Fodd bynnag, pan edrychodd y Pwyllgor ar y mater hwn wedyn gyda'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, ni chafwyd tystiolaeth glir bod y gwaith o brawfesur polisi yn cael ei gyflawni.

59. Roedd tystion eraill, megis yr Athro David Egan, yn pryderu a oedd y prif bolisïau addysg yng Nghymru yn cael eu prawfesur o safbwynt polisi plant oherwydd bod angen i'r polisïau hynny fod yn gydnaws iawn a chyfeirio at ei gilydd os oedd targedau 2020 i ddileu tlodi plant i gael eu cyflawni.

60. Hefyd, yn ôl y tystion, er bod dogfen *Dileu Tlodi Plant yng Nghymru: Mesur Llwyddiant* Llywodraeth y Cynulliad yn cynnwys targedau penodol ar draws amrywiaeth eang o bortffolios Gweinidogol, nid oedd rhai meysydd polisi yn gwneud ymdrech amlwg i gyflawni'r targedau hyn. Dywedodd Huw Lewis AC, Cadeirydd y Grŵp Arbenigol ar Dlodi Plant yng Nghymru, bod y targedau eu hunain yn rhesymol, ond:

> "mae yna feysydd portffolio lle nad oes yna braidd dim ymwybyddiaeth bod y rhain yn bodoli hyd yn oed".

61. Ystyriodd yr Aelodau bod angen i'r holl bortffolios Gweinidogol yn Llywodraeth y Cynulliad ddangos mwy o ymrwymiad i gyflawni eu targedau tlodi plant. Nododd yr Aelodau'r galwadau gan y tystion, megis Achub y Plant ac Action for Children Cymru, i'r Pwyllgor graffu'n flynyddol ar effaith Llywodraeth y Cynulliad ar dlodi plant. Roedd yr Aelodau'n ystyried y gallai'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ei hun fod yn fodd i godi ymwybyddiaeth o ymrwymiadau portffolios o fewn y Llywodraeth, er yn yr hirdymor, cyfrifoldeb Llywodraeth y Cynulliad ei hun fyddai hyn.

62. Croesawodd yr Aelodau gynnig Llywodraeth y Cynulliad yn ei dogfen ymgynghori *Gweithredu ar Dlodi Plant* (2008), sef:

> "cyflwyno pŵer wrth gefn i gyhoeddi canllawiau i asiantaethau cyhoeddus i'w cynghori ar sut i gyflawni eu swyddogaethau i ystyried tlodi plant".

63. Roedd Aelodau yn ystyried y byddai rheoliadau o'r fath yn hanfodol yng ngoleuni tystiolaeth gan dystion y gallai diffyg eglurder ynglŷn â pholisïau rwystro'u heffaith. Er enghraifft, wrth gyfeirio at adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad a oedd yn canolbwyntio ar ba mor effeithiol yr oedd cyllid Rhagori wedi cynorthwyo ysgolion i fynd i'r afael â thangyflawni ymysg disgyblion dan anfantais economaidd-gymdeithasol, dywedodd ESTYN bod:

> "diffyg diffiniad cadarn Llywodraeth y Cynulliad o'r categorïau gwariant cymeradwy wedi golygu bod rhai ysgolion wedi defnyddio cyllid Rhagori ar gyfer amrywiaeth eang o ddibenion nad ydynt bob amser yn gysylltiedig iawn ag amcanion y fenter Rhagori".

**Argymhellodd y Pwyllgor bod:**

**4. Llywodraeth y Cynulliad yn dangos ymrwymiad clir i sicrhau bod yr holl bolisïau yn cael eu prawfesur o safbwynt tlodi plant. Dylai hyn gynnwys:**

- **a) cyhoeddi targedau blynyddol penodol ar gyfer pob Portffolio Gweinidogol, i fynd i'r afael â Thlodi Plant;**
- **b) cyhoeddi cynnydd pob portffolio Gweinidogol tuag at gyflawni'r targedau hyn bob blwyddyn; a**
- **c) chynnal trafodaeth flynyddol wedi'i threfnu, yn amser y Llywodraeth, ar gynnydd Llywodraeth y Cynulliad tuag at fodloni'r targedau hyn.**

### Lefelau a Hygyrchedd Cyllid

64. Soniodd sawl tyst am yr angen i sicrhau bod cyllid priodol ar gael i weithredu polisïau ar fynd i'r afael â thlodi plant a hefyd yr angen i edrych am ddulliau ariannu ar gyfer gweithredu'r polisïau hyn.

65. Mae Adroddiad Bramley,[7] a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, yn awgrymu nad yw'r fformiwlâu cyfredol ar gyfer ysgolion yn caniatáu digon o bwysoli ar gyfer amddifadedd. Mae adroddiadau cychwynnol wedi dangos bod rhaglenni megis Rhagori, sy'n targedu disgyblion dan anfantais er mwyn gwella'u perfformiad, wedi dangos canlyniadau 'calonogol'. Fodd bynnag, dywedodd Achub y Plant mai cyllideb gymharol fach oedd gan y rhaglen Rhagori o gymharu â rhaglenni cyfwerth yn Lloegr.  Yng Nghymru, £14.6 miliwn oedd y grant Rhagori i ysgolion yn 2006-07, a £14.4 miliwn yn 2007-08. Dyrannwyd £1 filiwn hefyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

66. Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth gref gan y rhan fwyaf o dystion yn croesawu'r ffaith bod arian Dechrau'n Deg wedi'i neilltuo. Roedd yr Athro David Egan yn dadlau, yn seiliedig ar dystiolaeth ar sut y gall gwledydd ddyrannu cyllid orau er mwyn mynd i'r afael ag anfantais addysgol, mai'r peth gorau yw cael rhaglenni ariannu cyffredinol a rhai wedi'u targedu'n benodol megis Rhagori. Pan ofynnwyd a ddylai mwy o'r arian sy'n cael ei wario ar fynd i'r afael â thlodi plant gael ei neilltuo fel ei fod yn cael ei wario gan yr ysgol ar hynny a dim arall, cytunodd Rex Phillips (NASUWT) a dywedodd:

> "yn yr un modd, dwi'n credu bod gan awdurdodau lleol gyfraniad i'w wneud at hyn. Waeth pa gynigion y byddant yn eu rhoi ar waith, megis ad-drefnu ysgol neu resymoli lleoedd ysgol, dylai eu cynigion gynnwys datganiadau asesu effaith, a dylai un datganiad ymwneud â'r ffordd y bydd y cynnig yn effeithio ar allu'r awdurdod i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddileu tlodi plant".

67. Fodd bynnag, roedd tystion eraill yn pryderu y gallai neilltuo ffrydiau ariannu olygu y byddai'r drefn ariannu'n anhrefnus, ac yn golygu gorfod datblygu perthynas ag amrywiaeth eang o swyddogion, a llawer iawn o fiwrocratiaeth wrth wneud cais am gyllid. Dywedodd David Hopkins, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW):

> "Mae fy awdurdod addysg lleol yn cael ychydig dros £5 miliwn y flwyddyn ar gyfer plant 0 i 5 mlwydd oed, os ydw i'n cynnwys yr holl grantiau o bob ffynhonnell, gan gynnwys Dechrau'n Deg ac ati. Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn yn cynnwys nifer fawr o wahanol grantiau, sy'n gallu bod yn anodd eu rheoli. Yn wir, rydyn ni wedi cyflogi rhywun i gydgysylltu'r cyfan a gwneud synnwyr o'r sefyllfa. Mae angen trefn ariannu fwy cydlynol a ffordd gyflymach o ddweud wrth awdurdodau lleol, er enghraifft, 'rydyn ni am i hyn gael ei wneud ar gyfer plant 0 i 5 oed o fewn y cyfnod hwn, ac rydych chi'n atebol am hynny'".

68. Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn ystyried mai da o beth yw cael cydlyniant wrth wneud ceisiadau am arian ac y dylai Llywodraeth y Cynulliad ymdrechu i symleiddio'r broses hon lle bynnag posibl.  Fodd bynnag, roedd yr Aelodau'n ystyried bod angen i'r broses o wneud ceisiadau am arian adlewyrchu'r ffaith bod y Llywodraeth yn blaenoriaethu'r gwaith o ddileu tlodi plant.

[7] Astudiaeth Prifysgol Heriot-Watt, (2007*) Alternative Resource Allocation Models for Local Services in Wales* ("Adrodiad Bramley")

**Argymhellodd y Pwyllgor y dylai:**

**5. Llywodraeth y Cynulliad adolygu a rhesymoli'r gwaith o ariannu asiantaethau lleol gyda'r bwriad o sicrhau cydlyniant yn ei holl drefniadau ariannu.**

**6. Llywodraeth y Cynulliad sicrhau, wrth wneud cais am unrhyw 'gyllid nad yw'n rheolaidd' yn hytrach na chyllid craidd, y dylai fod yn angenrheidiol i awdurdodau lleol ddangos sut bydd yr arian a roddir iddynt yn effeithio ar allu'r awdurdod i fynd i'r afael â thlodi plant.**

**7. Llywodraeth y Cynulliad adolygu'r canllawiau statudol yng Nghylchlythyr 23/02, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2002, fel ei bod yn angenrheidiol i gynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion neu resymoli lleoedd ysgol, gynnwys datganiad asesu effaith yn rhoi manylion o'r ffordd y bydd y cynnig yn effeithio ar allu'r awdurdod i gynorthwyo'r gwaith o ddileu tlodi plant.**

**Diffyg Data ar Effaith Polisïau a'u Monitro**

69. Galwodd sawl tyst, gan gynnwys Achub y Plant, CLILC a'r NASUWT, am well monitro o safbwynt effaith polisi a gwell monitro o safbwynt cydgysylltu polisïau. Roedd tystion yn bryderus am y diffyg data a'r angen am ystyriaeth fwy hirdymor er mwyn gallu nodi'r hyn sy'n gweithio, yr hyn nad yw'n gweithio a sut y gellid gwneud newidiadau defnyddiol. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig dywedodd yr Athro David Egan:

> "Gellir awgrymu, er ei bod yn amlwg bod llawer wedi'i gyflawni ym maes addysg i gyflwyno polisïau sydd wedi'u llunio i wrthwneud effeithiau anfantais, ychydig a wyddom am yr effaith wirioneddol y mae'r polisïau hyn wedi'i chael, yn unigol neu gyda'i gilydd. Er bod Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i bolisi a gwerthuso ar sail tystiolaeth, nid yw gwaith ymchwil a gwerthuso trawsbynciol o'r math hwn wedi'i gynnal".

70. Awgrymodd Achub y Plant y dylid rhoi cymhellion i ysgolion fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Roedd yr Aelodau o'r farn y gellid cymell ysgolion trwy fonitro o bosibl. Nododd yr Aelodau dystiolaeth gan ATL bod:

> "tlodi plant yn eitem arall ar yr agenda ar gyfer ysgolion, ac mae ganddynt raglen lawn a phrysur iawn i'w chyflawni. Gall y blaenoriaethau hyn gystadlu'n erbyn ei gilydd, felly mae'n rhaid cael gofyniad yma".

71. Fodd bynnag, roedd Aelodau'n ymwybodol hefyd na ddylai monitro ganolbwyntio'n unig ar gymwysterau addysgol sy'n cael eu cyflawni gan ddisgyblion sy'n cael cymorth gan raglenni o'r fath, ond y dylai gynnwys dadansoddiad ansoddol o newidiadau cadarnhaol eraill y mae polisïau o'r fath wedi'u gwneud i fywydau plant a phobl ifanc. Yn yr un modd, gwnaed sylwadau gan Antonia Bridges, Dechrau'n Deg Bro Morgannwg, a oedd yn nodi er na fydd pawb yn cyflawni cymwysterau academaidd, gallai pobl elwa

ar hyfforddiant bywyd serch hynny. Dywedodd hefyd bod y mathau o dystiolaeth a welir yn lleol gan Dechrau'n Deg, megis rhestri aros i blant sy'n disgwyl therapi lleferydd ac iaith yn lleihau, yn wahanol yn aml i'r mathau o dystiolaeth yr oedd Llywodraeth y Cynulliad yn gofyn amdanynt. Awgrymodd bod angen astudiaethau hydredol er mwyn gwerthuso newidiadau yng nghalonnau a meddyliau pobl. Roedd tystiolaeth pobl ifanc a oedd yn mynychu Prosiect Ieuenctid Tanyard yn awgrymu y gallai'r targedau gwmpasu nifer y gwaharddiadau, yn ogystal â chyrhaeddiad addysgol.

**Argymhellodd y Pwyllgor bod:**

**8. Llywodraeth y Cynulliad yn cyflwyno proses fwy effeithiol o fonitro a gwerthuso effaith polisïau, gan gynnwys astudiaethau hydredol. Dylai monitro fod yn un o'r gofynion allweddol ar gyfer awdurdodau lleol wrth iddynt wneud cais am gyllid grant, gydag arian Rhagori yn gysylltiedig â monitro perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, er enghraifft. Ni ddylai'r broses fonitro ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar gyrhaeddiad addysgol, ond yn hytrach dylai hefyd gynnwys targedau sy'n ymwneud â gofal bugeiliol, megis y nifer sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol yn barhaol.**

**Thema 2: Swyddogaeth ysgolion o ran lliniaru effeithiau tlodi plant**

**Rhannu Arferion Da a Chodi Ymwybyddiaeth o Faterion Tlodi Plant**

72. Roedd nifer o dystion, gan gynnwys ESTYN, Achub y Plant, Action for Children Cymru, ATL a'r NASUWT, yn bryderus bod angen hwyluso'r gwaith o rannu arferion da ymysg gweithwyr proffesiynol addysg yn well. Dywedodd y Dr Phillip Dixon, ATL, mai'r argymhelliad mwyaf ymarferol y gallai ef feddwl amdano fyddai sicrhau bod arferion da yn cael eu rhannu ymysg ysgolion a'u bod yn cael ei hwyluso. Roedd Dr Dixon hefyd yn croesawu'r cynigion i brif ffrydio addysg tlodi mewn hyfforddiant athrawon.

73. Roedd tystiolaeth ESTYN hefyd yn dangos bod llawer o ysgolion a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen Rhagori yn gweithio ar eu pen eu hunain, gan ddweud bod Llywodraeth y Cynulliad:

> "ymhell ar eu hôl hi o ran sefydlu'r wefan arfaethedig i hyrwyddo'r gwaith o rannu syniadau ac arferion gorau".

74. Roedd yr aelodau hefyd yn ystyried y gellid lledaenu'r neges yn well am arferion da ynglŷn â swyddogaethau athrawon o ran darparu gofal bugeiliol trwy hyfforddiant athrawon prif ffrwd. Nododd yr Aelodau bod *Codi Safonau a mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith: Cytundeb Cenedlaethol* wedi rhoi sylw i lefelau llwyth gwaith athrawon. Roedd hyn yn cynnwys dirprwyo tasgau gweinyddol a chlerigol fel mater o drefn. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau'n ystyried na ddylai'r cytundeb atal pob athro rhag cael cyfrifoldeb i hwyluso'r gwaith o ddarparu gofal bugeiliol i ddisgyblion. Roedd yr aelodau'n ystyried bod gan bob athro gyfrifoldeb i fod yn sensitif i anghenion plant mewn tlodi, i ystyried hyn wrth ryngweithio â nhw, a gallu eu cyfeirio at y bobl briodol a fyddai'n gallu rhoi mwy o gymorth pan oedd angen.

**Argymhellodd y Pwyllgor y dylai:**

**9. Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod arferion da o ran mynd i'r afael ag effeithiau tlodi yn cael eu lledaenu'n well ymysg ysgolion a lleoliadau addysg ffurfiol ac anffurfiol.**

**10. Llywodraeth y Cynulliad sefydlu'r wefan Rhagori arfaethedig ar frys er mwyn hyrwyddo'r gwaith o rannu syniadau ac arferion da.**

**11. Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod mwy o addysg tlodi yn cael ei chynnwys mewn hyfforddiant athrawon prif ffrwd ac wrth hyfforddi gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn lleoliadau addysg. Dylai'r addysg hon gwmpasu effaith tlodi ar blant a'u haddysg. Hefyd, dylai gynnwys cyfrifoldebau athrawon i ddarparu gofal bugeiliol.**

**12. Llywodraeth y Cynulliad gynnal adolygiad o ddehongliad 'Codi Safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith: Cytundeb Cenedlaethol' mewn perthynas â chyfrifoldebau athrawon i hwyluso'r gwaith o ddarparu gofal bugeiliol. Dylai'r adolygiad hwn benderfynu a yw'r ffordd y mae'r cytundeb wedi'i ddehongli yn llesteirio athrawon, heb gyfrifoldebau penodol dros ddarparu gofal bugeiliol, rhag bod yn**

**sensitif o ran anghenion disgyblion mewn tlodi, neu sy'n wynebu rhwystrau eraill i ddysgu. Os yw'r cytundeb yn cael ei ddehongli fel hyn, dylai Llywodraeth y Cynulliad roi cyfeiriad clir i awdurdodau addysg ac ysgolion, gan egluro cyfrifoldeb parhaol pob athro i fod yn sensitif i faterion tlodi cymdeithasol, a materion cymdeithasol eraill, wrth ryngweithio gyda disgyblion a chyfeirio disgyblion i gael cymorth ychwanegol os yw'n briodol.**

### Brecwast am Ddim mewn Ysgolion

75. Cafodd y Pwyllgor amrywiaeth o dystiolaeth ynglŷn â brecwast am ddim mewn ysgolion. Gofynnodd y Pwyllgor nifer o gwestiynau am nifer y plant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol tlotach sy'n cael brecwast am ddim mewn ysgolion. Dywedodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau:

> "mae'n debyg bod mwy y gallwn ni ei wneud o ran asesu a yw'r plant a allai elwa'n wirioneddol yn gwneud hynny, o ran niferoedd".

76. Hefyd, cododd Ann Jones AC[8] bwynt am amseriad brecwast mewn ysgolion, gan ddweud:

> "Dwi wedi bod mewn clybiau brecwast ac wedi gweld yn aml nad yw'r rhai rydyn ni'n eu targedu - y rhai o gymunedau tlawd a than anfantais - yn cyrraedd yr ysgol mewn pryd i gael brecwast cyn bod y gloch yn canu am 8.55am neu pryd bynnag. A oes rhyw ffordd y gallem ni sicrhau bod y brecwast yn cael ei ddarparu ar ôl i'r ysgol ymgynnull, fel y gallai'r plant fynd i gofrestru a mynd i gael eu brecwast wedyn? Fel hynny, efallai y gallai'r rhai o'r cymunedau dan anfantais fanteisio ar y cyfle. Mewn rhai ardaloedd gwelir y clwb brecwast fel estyniad o'r cyfleuster gofal plant, sydd ei angen yn fawr a dwi ddim yn beirniadu hynny, ond rydych chi'n gweld brodyr a chwiorydd o gymunedau tlotach yn mynd â'r lleill i'r ysgol ac maen nhw wedi colli'u brecwast".

### Prydau Ysgol am Ddim

77. Nododd Aelodau'r Pwyllgor bod nifer y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim ac sydd yn eu derbyn wedi bod yn amrywio ers sawl blwyddyn. Dywedodd Plant yng Nghymru nad yw tua 28% o blant ysgolion uwchradd sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn eu cymryd, gyda thystiolaeth ail-law yn cysylltu prydau ysgol am ddim â bwlio a stigma. Yn 2003, roedd adroddiad Achub y Plant, *Listen Up! Children and Young People Talk: About Poverty* yn cynnwys sylwadau bachgen 12 mlwydd oed:

> "Dyw pobl ddim yn hawlio prydau ysgol am ddim am fod arnyn nhw gywilydd. O'n i'n gadael i bobl ag arian fynd o'm blaen i yn y ciw fel na fydden nhw'n gweld".

[8] Mynychodd Ann Jones AC y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc fel dirprwy i Lynne Neagle yn ystod ei habsenoldeb mamolaeth

78. Dywedodd Plant yng Nghymru eu bod yn cymeradwyo cardiau call mewn rhai ysgolion ar gyfer prynu prydau ysgol, gan ei gwneud yn anoddach i nodi'r plant a oedd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Awgrymwyd hefyd y dylai Llywodraeth y Cynulliad gynnal astudiaeth i ba mor ymarferol oedd darparu prydau ysgol am ddim i bawb. Dywedodd yr NASUWT a'r ATL bod rhywfaint o werth i'r syniad o ddarparu prydau ysgol am ddim gorfodol, i bob plentyn dan oed arbennig. Nododd yr Aelodau efallai y byddai disgyblion ysgol 12 mlwydd oed yn fwy parod i dderbyn pryd ysgol gorfodol na'r rhai 16 oed. Dywedodd yr Aelodau hefyd y byddai angen i brydau ysgol gorfodol fod yn ddeniadol i bobl ifanc, gan ystyried bod un bachgen ifanc wedi dweud nad oedd y prydau yn ei ysgol ef yn blasu fel petaent wedi'u coginio'n iawn.

79. Nododd yr Aelodau bod Llywodraeth y Cynulliad wedi comisiynu adolygiad llenyddiaeth o waith a wnaed ar y nifer a oedd yn manteisio ar yr hawl i brydau ysgol am ddim ac wedi gweithio mewn partneriaeth ag Adran Plant a Theuluoedd Llywodraeth y DU i gyflwyno system electronig ar gyfer penderfynu ar gymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim. Rhoddwyd y system ar waith ym mis Mawrth 2008.

80. Nododd yr Aelodau hefyd bod CLILC wedi lansio arolwg Cymru gyfan ar y posibilrwydd o gyflwyno system yn raddol nad yw'n defnyddio arian parod mewn ffreuturau ysgol. Nododd yr Aelodau y gallai bwlio a stigma effeithio ar y nifer a oedd yn manteisio ar brydau ysgol am ddim, ond hefyd gallai barn disgyblion am y bwyd a oedd ar gael neu eu dymuniad i gymdeithasu gyda'u cyfoedion yn ystod amser cinio effeithio ar hyn hefyd. Roedd yr Aelodau yn ymwybodol, gan fod llawer o ysgolion wedi buddsoddi mewn systemau electronig ar gyfer prynu prydau ysgol, y byddai'n synhwyrol gwerthuso pa mor effeithiol oedd systemau o'r fath cyn ystyried cyflwyno prydau ysgol am ddim i bawb. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau yn ystyried y gallai Llywodraeth y Cynulliad ymchwilio i ba mor ymarferol oedd darparu prydau ysgol am ddim i bawb tra'n gwerthuso pa mor effeithiol oedd rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhellodd y Pwyllgor bod:**

**13. Llywodraeth y Cynulliad yn galluogi'r gwaith o fonitro nifer y plant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol tlotach a oedd yn manteisio ar frecwast am ddim mewn ysgolion ac yn comisiynu ymchwil i fanteision posibl diwygio amseroedd y clybiau brecwast. Gallai hyn gynnwys monitro a oedd ysgolion ac awdurdodau lleol yn sicrhau bod brecwast am ddim ar gael. Ni fyddai monitro fel hyn yn cynnwys nodi plant a phobl ifanc.**

**14. Llywodraeth y Cynulliad yn galluogi'r gwaith o fonitro'r nifer a oedd yn manteisio ar brydau ysgol am ddim, gan gynnwys monitro gwerth maethol prydau o'r fath.**

**15. Llywodraeth y Cynulliad yn comisiynu ymchwil i ba mor ymarferol oedd cyflenwi prydau ysgol am ddim i bawb ar gyfer plant o wahanol oedran.**

**16. Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried gweithredu cynllun peilot ar gyfer darparu prydau ysgol am ddim i bawb.**

**17. Llywodraeth y Cynulliad yn comisiynu ymchwil i effeithiolrwydd cynlluniau i leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â phrydau ysgol am ddim.**

**Swyddogaeth Llywodraethwyr Ysgolion**

81. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, tynnodd yr Athro David Egan sylw at astudiaeth ar swyddogaeth llywodraethwyr ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig (Dean et al., 2007) a oedd yn cefnogi ymchwil gyfoes arall bod gan lywodraethwyr ran bwysig i'w chwarae ym maes effeithiolrwydd ysgolion. Mae hyn yn ymddangos yn arbennig o wir mewn ardaloedd dan anfantais lle mae heriau sylweddol yn wynebu cyrff llywodraethu. Mae cyrff llywodraethu yn wynebu problemau o ran recriwtio aelodau addas sydd â'r gallu i gyflawni eu swyddogaeth ac sy'n cynnig heriau yn ogystal â chynorthwyo penaethiaid. Mae astudiaeth Sefydliad Joseph Rowntree, a ddyfynnwyd gan yr Athro Egan, yn awgrymu felly efallai fod angen modelau newydd o lywodraethu ysgolion er mwyn goresgyn y rhwystrau hyn a chaniatáu i gyrff llywodraethu gyflawni'u potensial.

82. Nid oedd unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig arall yn cyfeirio'n uniongyrchol at swyddogaeth llywodraethwyr ysgol. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt, cytunodd yr NASUWT a'r ATL bod gan lywodraethwyr ysgol swyddogaeth bwysig. Meddai Dr Dixon, ATL:

> "Mae'n ymwneud â darparu hyfforddiant a phrif ffrydio polisi, fel eu bod yn gweld beth yw eu cyfrifoldebau a pha gymorth y gallan nhw ei gael wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hynny. Felly, dwi'n meddwl eu bod yn chwarae rhan bwysig, ond, dwi ddim yn credu y dylen ni roi'r cyfrifoldebau hynny iddyn nhw a dweud, 'Nawr bant â'r cart'. Dwi ddim yn credu y byddai hynny'n deg o gwbl".

83. Dywedodd Mr Phillips, yr NASUWT:

> "Heb os na oni bai, mae ganddyn nhw ran i'w chwarae o ran edrych ar rai o'r materion rydyn ni wedi sôn amdanynt, megis polisi ar wisg ysgol ac ati. Dwi'n cymryd yn ganiataol bod y materion hynny yn cael eu dwyn gerbron y llywodraethwyr ac yn cael eu cymeradwyo ganddynt yn y rhan fwyaf o ysgolion. Dwi'n credu ei bod yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth llywodraethwyr fel eu bod yn cadw llygad ar dlodi plant a'r polisïau sy'n cael eu rhoi ar waith mewn ysgolion a sut y gellir eu mesur yn erbyn dileu tlodi plant fel wrth gyflawni eu dyletswyddau. Mae'n ymwneud â datganiadau asesu effaith sydd angen eu rhoi ar waith. Efallai y dylai rhoi diwedd ar dlodi plant fod yn eitem ar agenda cyfarfodydd cyrff llywodraethu, neu y dylid cyfeirio ato mewn adroddiadau penaethiaid i lywodraethwyr".

84. Ystyriodd yr Aelodau bod arweinyddiaeth gref, frwdfrydig gan lywodraethwyr ac arweinwyr ysgolion yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â thlodi plant. Soniodd yr Aelodau am arweinyddiaeth ymroddedig Mick Millman, Pendyrus, arweinydd prosiect On Track, gan ystyried bod angen i arweinwyr gael cyfrifoldebau a chymorth i effeithio ar dlodi plant.

**Argymhellodd y Pwyllgor bod:**

**18. Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau bod mwy o gymorth a hyfforddiant ar gael i lywodraethwyr ysgol ar dlodi plant.**

**19. Llywodraeth y Cynulliad yn darparu canllawiau statudol i lywodraethwyr ac arweinwyr ysgolion ar y math o arweinyddiaeth y dylen nhw fod yn ei rhoi i fynd i'r afael â thlodi plant. Dylai'r canllawiau hyn gynnwys camau ymarferol megis cydbwyso gwerth addysgol teithiau preswyl yn erbyn eu cost ariannol. Dylai'r canllawiau hyn fod ar gael i rieni, gofalwyr a disgyblion hefyd.**

## Pontio

85. Tynnodd y tystion sylw yn eu tystiolaeth at amrywiaeth o ffactorau a allai arwain at gyrhaeddiad addysgol gwael ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ymysg plant a phobl ifanc. Yn ystod ymweliadau rapporteur Aelodau â'r prosiect On Track ym Mhendyrus, dywedodd Mick Millman bod pobl ifanc yn debygol iawn o fynd i gylch tangyflawni yn ystod cyfnodau pontio addysgol: mynd i ysgolion cynradd; pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd; a, gadael ysgolion uwchradd.

86. Roedd y risgiau sy'n gysylltiedig â phontio rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd wedi'u nodi yn nhystiolaeth yr Athro David Egan hefyd, a ddywedodd bod ysgolion cynradd fel petaent yn gallu lefelu'r anfanteision y mae anfantais economaidd -cymdeithasol yn eu hachosi yn well:

> "Mae ysgolion Cynradd fel petai ganddynt system sy'n golygu bod ganddynt fwy o allu i gynorthwyo pobl ifanc i oresgyn effeithiau anfantais a thlodi - er nad yr holl effeithiau - ond pan fo plant yn cyrraedd yr ysgol uwchradd, mae'n dechrau effeithio arnyn nhw. Mae'n digwydd rhywbryd rhwng 11 a14 oed".

87. Cyflwynodd pobl ifanc Prosiect Ieuenctid Tanyard safbwyntiau tebyg, a dweud hefyd eu bod yn ymwybodol o'r dosbarthiadau mwy o faint mewn ysgolion uwchradd, lle:

> "roedd 30 o bobl mewn dosbarth a dim digon o athrawon pan oedd angen help".

88. Pan ofynnwyd am fodelu system addysgu'r ysgolion cynradd mewn ysgolion uwchradd, dywedodd David Hopkins, ADEW:

> "Mae rhai penaethiaid eisoes wedi ceisio addysgu plant yn ystod y ddwy flynedd gyntaf yn yr ysgol uwchradd yn yr un ffordd ag y maent yn cael eu haddysgu yn yr ysgol gynradd. Hynny yw, ni fydd athrawon yn dysgu un pwnc yn unig ond yn dysgu grŵp o blant am y flwyddyn gyntaf yn yr ysgol uwchradd, er enghraifft. Rhoddwyd cynnig ar fentrau o'r fath, ac maent yn tueddu i weithio'n dda. Rhaid dweud, ar y llaw arall, na fyddai pob athro uwchradd yn croesawu'r model hwn, ac na fyddai pob pennaeth chwaith".

89. Hefyd, nododd yr Aelodau dystiolaeth gan ADEW a oedd yn tynnu sylw at waith arbennig gan AALl ac ysgolion i reoli'r cyfnod pontio rhwng addysg gynradd ac uwchradd. Dyma rai enghreifftiau:

- Mae Ysgol Uwchradd Eirias, Conwy yn cyflwyno 'Cwricwlwm Dysgu Seiliedig ar Brosiect'. Caiff wyth prosiect eu cwblhau ym Mlwyddyn 7 ar amrywiaeth o themâu, gyda phob un yn canolbwyntio ar ddysgu seiliedig ar sgiliau. Nod hyn yw galluogi pobl ifanc i reoli'r cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn fwy hyderus.
- Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin nifer o fentrau i gynorthwyo'r pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd a sicrhau bod disgyblion yn ymgysylltu'n well a sicrhau gwell canlyniadau. Mae'r prosiectau'n cynnwys defnyddio TGCh fel modd i ddisgyblion ac athrawon gael profiadau Dylunio a Thechnoleg gydol Blwyddyn 6 ac ymlaen i'r ysgol uwchradd.
- Mae Ysgol Gyfun Glynebwy, Blaenau Gwent, a'i hysgolion cynradd sy'n bartneriaid, wedi cronni rhan o'u grant *'Building Schools for the Future'* i gynorthwyo'r gwaith o bontio'n effeithiol o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Datblygwyd rhaglen ar sgiliau meddwl a dysgu, a oedd yn cael ei gweithredu ym Mlwyddyn 6 ac ymlaen i'r cam uwchradd.
- Mae pum awdurdod lleol - Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg - yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Gwella Addysg ac Ysgolion i gynnal cynllun peilot *"Investors in Families"* yng Nghymru, a all weithio ar draws y camau cynradd ac uwchradd. Gall yr ysgolion sy'n cymryd rhan gael eu hachredu a bydd y cynllun yn eu galluogi i gydweithio'n agosach, yn fwy cyson ac yn fwy cynhyrchiol â rhieni.

90. Nododd yr Aelodau hefyd y dull a ddefnyddir gan brosiect On Track Pendyrus. Roedd wedi'i gynnal yn wreiddiol ar gyfer ward Pendyrus, fel rhan o brosiect ymchwil cenedlaethol, ond cafodd y prosiect ei gyflwyno'n raddol ledled Cwm Rhondda Fach, ardal clwstwr ysgolion Ysgol Gymunedol Glynrhedynog, yn 2002. Mae'r prosiect yn darparu gwasanaeth plant a theuluoedd aml-asiantaeth o amgylch y Grŵp Clwstwr Ysgolion ac mewn partneriaid â'r clwstwr. Mae gwasanaethau prif ffrwd cyffredinol, sy'n hygyrch i'r holl blant a phobl ifanc yn y grŵp clwstwr, yn cynorthwyo gwasanaethau wedi'u targedu ar gyfer teuluoedd sydd â'r angen mwyaf megis pobl ifanc sydd yn y cyfnod pontio rhwng sefydliadau addysg. Mae'r dull cydgysylltiedig hwn o wasanaethau cyffredinol a gwasanaethau wedi'u targedu yn osgoi'r stigma sy'n cael ei gysylltu â derbyn cymorth. Nododd yr Aelodau hefyd, o'r 24 prosiect On Track a sefydlwyd yn wreiddiol ledled y DU, profwyd mai prosiectau a oedd yn darparu cymorth prif ffrwd a chymorth wedi'i dargedu ar gyfer pobl ifanc oedd y rhai mwyaf effeithiol. Yn y dystiolaeth ysgrifenedig, dyfynodd On Track Pendyrus o *National Evaluation of On Track* (2004) (dogfen Saesneg yn unig) y Polisi Research Buresu a ganfu:

> "the provision of multi-modal services working at both the universal and the targeted levels, and incorporating parent support alongside direct work with children is now thought to be best practice in delivering interventions aimed at improving outcomes for children in high risk environments".

**Argymhellodd y Pwyllgor bod:**

**20. Llywodraeth y Cynulliad yn comisiynu ymchwil i'r rhesymau pam fod cynnydd addysgol fel petai'n dirywio ym mlynyddoedd cynnar yr ysgol uwchradd, gan gyfeirio'n arbennig at blant o gefndiroedd economaidd-cymdeithasol tlotach.**

**Cydlyniant Cymdeithasol**

91. Roedd yr Aelodau'n ystyried y dylid rhoi dyletswydd ar bob ysgol i hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol, o ran y disgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgol ac wrth ryngweithio gydag ysgolion eraill trwy chwaraeon, er enghraifft.

**Argymhellodd y Pwyllgor bod:**

**21. Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi dyletswydd benodol ar bob ysgol sy'n cael ei hariannu'n gyhoeddus i hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol.**

**Costau Addysg a Thlodi 'Diwylliannol'**

92. Nododd Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru bod nifer o'i aelodau yn pryderu am gost gwisg ysgol, prydau ysgol, teithiau ysgol a gweithgareddau allgyrsiol. Yn yr un modd, dywedodd Sean O'Neil, Plant yng Nghymru, wrth y Pwyllgor:

> "fe wyddoch o gerrig milltir a thargedau'r Cynllun Gweithredu Tlodi Plant nad oedd unrhyw dargedau penodol ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn; roedd y ffocws ar addysg yn ymwneud â chyflawniad a chyrhaeddiad addysgol".

93. Roedd Plant yng Nghymru yn amcangyfrif mai £563 yw cyfartaledd cost addysg gynradd i un plentyn am flwyddyn. Mae hyn yn codi i £948 mewn ysgolion uwchradd ac yn cynnwys cost cinio ysgol, cludiant i'r ysgol, deunyddiau ar gyfer gwaith cwrs, ffotograffau a chyfraniadau i gronfa'r ysgol.

94. Nododd Plant yng Nghymru bod y pryder hwn wedi'i amlygu yn adroddiad Tasglu Tlodi Plant 2004, a oedd yn dweud:

> "Mae plant a phobl ifanc yn tybio bod ysgolion yn ddrud ac elitaidd. Nid ydynt yn teimlo eu bod yn gallu cyfranogi'n llawn yn y gymuned ysgol oherwydd costau teithiau a gweithgareddau ysgol; am fod dillad a phrydau ysgol am ddim yn dangos eu bod yn dlawd ac yn denu bwlio a diffyg dealltwriaeth neu gymorth gan athrawon a gweithwyr ieuenctid".

95. Galwodd sawl Corff Anllywodraethol ar Lywodraeth y Cynulliad i ostwng costau addysg, yn enwedig costau sy'n ymwneud â theithiau ysgol a deunyddiau ar gyfer cyrsiau TGAU. Roeddynt yn galw am fentrau megis grantiau gwisg ysgol i gael gwell cyhoeddusrwydd.

96. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor dystiolaeth gan CLILC bod sawl ysgol wedi ceisio cadw costau addysg i lawr. Rhoddodd ATL Cymru enghreifftiau o ysgolion yn ceisio cadw'r costau i lawr i rieni megis:

- cyflenwi pecynnau arholiad i'r disgyblion (papur, ysgrifbinnau, pensiliau ac ati);
- cyflenwi crysau polo a chrysau chwys am bris cost a chynnig gwisg ysgol am ddim i rai teuluoedd yn ddisylw; a,
- gwahodd plant i gymryd rhan mewn clybiau brecwast.

97. Cafodd yr Aelodau dystiolaeth gymysg gan bobl ifanc am gostau gwisg ysgol. Roedd rhai wedi cymryd rhan mewn cynghorau ysgol i ostwng costau gwisg ysgol ac roedd eraill yn pryderu nad oedd y grantiau ar gyfer costau gwisg ysgol yn ddigonol. Roedd yr Aelodau yn ystyried y gallai fod yn ddefnyddiol i Lywodraeth y Cynulliad gynnal ymchwil bellach i gostau addysg ledled Cymru, gan gynnwys costau gwisg ysgol, ac i ba raddau yr oedd ysgolion yn glynu at ganllawiau Llywodraeth y Cynulliad ar ostwng y costau hyn. Roedd yr Aelodau'n ystyried, yn dibynnu ar ganfyddiadau'r ymchwil hon, y gallai fod yn briodol i Lywodraeth y Cynulliad sicrhau bod mwy o gyllid ar gael i awdurdodau lleol allu dyfarnu grantiau ar gyfer y costau cysylltiedig. Hefyd, roedd yr Aelodau'n ystyried y gallai'r ymchwil hon olygu y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn cyflwyno targedau penodol, gyda grym statudol, ar gyfer costau gwisg ysgol, prydau, teithiau a gweithgareddau allgyrsiol.

98. Roedd taliadau am deithiau ysgol yn pryderu'r Aelodau. Nododd yr Aelodau bod *Deddf Addysg 1996* yn pennu y dylai addysg i ddisgyblion yn ystod oriau ysgol gael ei darparu am ddim. Mae hawl gan ysgolion godi tâl am luniaeth a llety ar ddisgyblion cofrestredig, mewn ysgol a gynhelir ar daith breswyl ysgol, ond os yw'r rhain yn cael eu cynnal yn ystod sesiynau ysgol yn bennaf, bydd disgyblon y mae eu rhieni yn derbyn rhai budd-daliadau cymorth, yn ogystal â chael prydau ysgol am ddim, â hawl hefyd i'r taliadau hyn gael eu dileu.

99. Fodd bynnag, mynegodd yr ATL, yr NASUWT a phobl ifanc o Brosiect Ieuenctid Tanyard bryder nad oedd gan bobl fawr o ymwybyddiaeth o'r gyfraith hon a'r canllawiau cysylltiedig. Yn yr un modd, nododd Cyngor ar Bopeth Cymru mai dim ond 1 rhiant o bob 4 a oedd yn ymwybodol bod cymorth ar gael i ariannu teithiau ysgol i blant o deuluoedd incwm isel.

100. Roedd yr Aelodau'n pryderu hefyd y dylid sicrhau bod gwerth addysgol amlwg i'r holl deithiau preswyl y mae ysgolion yn eu trefnu ac nad ydynt yn cyfateb i wyliau drud i ddisgyblion. Roedd yr Aelodau'n bryderus yn arbennig y gallai rhai teithiau ysgol fod yn ddrud a dethol, heb werth addysgol sylweddol. Nododd yr Aelodau bod Arweiniad i Ymweliadau Addysgol Llywodraeth y Cynulliad ar gael yn <http://newydd.cymru.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/providers_health_and_safety/schools/visitsguidance/?lang=cy> ac ar hyn o bryd mae'n dweud:

> "Dylid nodi'n glir nodau ac amcanion yr ymweliad yn gynnar.  Dylai'r rhain fod yn berthnasol i bobl ifanc a'u datblygiad, gan ystyried oedran, gallu, cymhwysedd, profiad blaenorol a'r adnoddau sydd ar gael".

101. Hefyd, nododd yr Aelodau adborth cadarnhaol pobl ifanc am werth teithiau o'r fath, gydag un yn dweud am daith i Berlin:

> "Roedd yn daith addysgol. Roedd mynd yno a gweld y golygfeydd yn wych".

102. Roedd yr Aelodau yn ystyried bod cyfrifoldeb ar lywodraethwyr ysgolion i sicrhau y dylai teithiau preswyl yr oedd ysgolion yn eu trefnu roi cyfle cyfartal i bob plentyn gymryd rhan heb achosi stigma oherwydd cyfyngiadau ariannol neu ddiwylliannol.  Roedd yr Aelodau'n ystyried, wrth benderfynu ar leoliad a gweithgareddau teithiau ysgol, y dylai Llywodraethwyr ddewis yr opsiwn rhataf a oedd yn cyflawni'r un amcan addysgol.

**Argymhellodd y Pwyllgor bod:**

**22. Llywodraeth y Cynulliad yn cychwyn astudiaeth o gostau addysg er mwyn darparu tystiolaeth gynhwysfawr i gynorthwyo'r gwaith o lunio polisi sy'n mynd i'r afael â chostau o'r fath.**

**23. Llywodraeth y Cynulliad yn monitro i ba raddau y mae ysgolion yn cydymffurfio â'i chanllawiau ar wisg ysgol.**

**24. Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau mwy o gysondeb rhwng ysgolion, ac ar draws awdurdodau, ynglŷn â lleihau costau ychwanegol addysg cymaint â phosibl. Dylai hyn gynnwys canllawiau statudol clir gan Lywodraeth y Cynulliad ar leihau costau o'r fath a chynnwys cyngor ymarferol ar gydbwyso gwerth addysgol teithiau o'r fath yn erbyn eu costau ariannol. Dylai hyn roi cyfle cyfartal i bob plentyn gymryd rhan heb achosi stigma oherwydd cyfyngiadau ariannol neu ddiwylliannol.**

**25. Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau mwy o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd o'r canllawiau ynghylch costau teithiau ysgol i rieni a gofalwyr a'r cymorth sydd ar gael iddynt.**

### Swyddogion Cyswllt Ysgolion ar gyfer Gofalwyr Ifanc

103. Nododd yr Aelodau bod tystiolaeth gan ofalwyr ifanc yn dangos diffyg eglurder ynglŷn â pha staff addysg ddylai gael gwybod am gyfrifoldebau gofalwyr ifanc. Nodwyd nad oedd gweithwyr cymorth ar gyfer gofalwyr yn gwybod yn aml a ddylid cysylltu â swyddogion lles addysg, penaethiaid blwyddyn neu benaethiaid. Roedd yr Aelodau'n ystyried y gallai aelod o staff wedi'i hyfforddi fel swyddog cyswllt ysgol ar gyfer gofalwyr ifanc fod yn gyswllt gwerthfawr i ofalwyr ifanc a gweithwyr cymorth. Roedd yr Aelodau'n ystyried hefyd y gallai swyddog o'r fath gysylltu'n fewnol gyda staff addysgu a datblygu gallu staff i nodi gofalwyr ifanc posibl a rhyngweithio'n briodol â nhw.

**Argymhellodd y Pwyllgor bod:**

**26. Llywodraeth y Cynulliad yn darparu canllawiau i ysgolion ar hyfforddi a sefydlu aelod o staff fel swyddog cyswllt ysgol ar gyfer gofalwyr ifanc, gyda chyfrifoldeb am fynd ati i nodi ac ymgysylltu gyda gofalwyr ifanc a gweithwyr cymorth, a chysylltu'n fewnol gyda staff addysgu eraill.**

**Thema 3: Y ffaith na all ysgolion 'Wneud hyn heb Gymorth', a'r angen am fwy o bwyslais ar amrywiaeth o wasanaethau y tu allan i'r ysgol ac yn y gymuned i gynorthwyo pobl ifanc.**

104. Mae ymchwil Sefydliad Joseph Rowntree a ddyfynnwyd gan yr Athro Egan wedi dadlau'n gyson na all ysgolion oresgyn y cysylltiadau rhwng tlodi plant a chyflawniad addysgol isel ar eu pen eu hunain. Mae'r ymchwil hon yn dangos yr angen i integreiddio polisïau addysg unigol lawer yn well er mwyn iddynt ddylanwadu cymaint â phosibl ar effeithiau anfantais a rhoi mwy o bwyslais ar amrywiaeth o wasanaethau y tu allan i'r ysgol a gwasanaethau yn y gymuned a all gynorthwyo pobl ifanc. Roedd amrywiaeth eang o dystion yn cefnogi'r dystiolaeth hon, gan gynnwys plant a phobl ifanc, a nododd y tystion y gallai cael trafnidiaeth gyhoeddus i fynd yn ôl ac ymlaen i'r ysgol gael effaith sylweddol ar allu pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys teithiau ysgol.

**Ysgolion Bro**

105. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sicrhau bod cyllid ar gael i bob un o'r 22 awdurdod lleol ddatblygu ysgolion bro. Rhaglen gyffredinol yw hon ac nid yw wedi'i thargedu at ardaloedd difreintiedig yn unig, felly nid lleihau tlodi plant yw ei nod penodol.

106. Clywodd y Pwyllgor amrywiaeth o dystiolaeth argyhoeddiadol am swyddogaeth ysgolion bro o ran cyfrannu at gynorthwyo dysgu, annog datblygiad a rhoi amrywiaeth o gyfleoedd i blant na fyddai ar gael iddynt fel arall o bosibl. Nododd ContinYou Cymru, yr elusen sy'n darparu cymorth i awdurdodau lleol yng Nghymru i ddatblygu ysgolion bro, fod gan yr ysgolion hyn botensial gwirioneddol i fynd i'r afael â thlodi plant fel rhan o rwydwaith cydgysylltiedig, ehangach o ddarpariaeth. Dywedodd yr elusen:

> "dyma fater ysgolion bro yn syml iawn: mae'r gweithgareddau y tu allan i'r ysgol y byddai pobl yn yr ystafell hon yn eu cymryd yn ganiataol yn yr oes hon i gynorthwyo'u plant, ac yn sicrhau bod eu plant yn eu cael, yn bethau nad yw plant mewn tlodi yn eu cael nac yn gallu eu disgwyl".

107. Fodd bynnag, roedd sawl tyst yn pryderu nad yw'r rhaglen ysgolion bro yn cael ei hariannu'n ddigonol. Awgrymodd Achub y Plant nad oedd Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu fawr o adnoddau er mwyn datblygu ysgolion bro, o gymharu â'r cyllid a oedd yn cael ei ddyrannu yn Lloegr i ddatblygu a gweithredu polisi cyfwerth. Mewn tystiolaeth lafar dywedodd Anne Crowley, Achub y Plant:

"Mae gennym bryderon hefyd ynghylch dyrannu adnoddau. Yn natganiad y Gweinidog ar 20 Chwefror, ac mewn tystiolaeth a roddodd i chi ym mis Mawrth, disgrifiodd y nifer o bethau y mae'r Llywodraeth yn eu gwneud, sy'n wych, ond nid oedd y disgrifiad yn rhoi'r manylion am faint yn union oedd yn cael ei wneud. Yr enghraifft dwi'n ei rhoi yn fy nhystiolaeth yw ysgolion bro. Mae llawer o dystiolaeth yn awgrymu y byddai gweithio yn y ffordd hynny yn effeithiol wrth geisio cau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad plant tlawd a phlant mwy cefnog. Mae'r Llywodraeth wedi dyrannu £2 filiwn i'r rhaglen honno ac ni fydd hynny'n mynd yn bell iawn o ystyried y sefyllfa".[1]

108. Yn yr un modd, dywedodd yr Athro Egan:

"rydyn ni'n cyfrannu swm cymharol fach o arian at y rhaglen ar hyn o bryd yng Nghymru. Ar gyfartaledd, nid yw'n ddim byd tebyg i'r swm sy'n cael ei roi at y system ysgolion estynedig yn Lloegr".

109. Mynegodd ESTYN bryderon hefyd nad oedd cyllid ar gyfer prosiectau ysgolion bro wedi'i ddyfarnu'n briodol bob amser, gan gyfyngu'r cyllid ar gyfer:

"lleiafrif o brosiectau sy'n haeddu cael eu hystyried fel enghreifftiau da, arloesol neu fodelau arferion da".

110. Awgrymodd ESTYN y dylai Llywodraeth y Cynulliad atal cyllid ar gyfer prosiectau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf a nodwyd ar gyfer dyrannu grantiau ysgolion bro, gan roi blaenoriaeth i'r rhai sydd wedi'u cynllunio'n dda i gael effaith a dylanwad sylweddol ac na fyddai'n dibynnu'n aml ar gyllid yn y dyfodol. Nododd yr Aelodau bod y sylwadau hyn yn atseinio syniadau Mick Millman, rheolwr y prosiect On-Track, a oedd yn awgrymu y dylai grantiau prosiectau untro gael eu defnyddio gyda'r nod yn y pen draw o ad-drefnu gwasanaethau'n fwy effeithiol yn hytrach na gyda'r disgwyliad o gael arian grant pellach. Eglurodd Mick Millman nad oedd hyn yn gwahardd y gwaith o dreialu mentrau newydd, gan y gallai hynny olygu y gellid ad-drefnu yn y dyfodol, a dywedodd hefyd y byddai angen arian grant untro i roi digon o amser i sefydlu a gwerthuso prosiectau.

111. Roedd yr Aelodau'n ystyried bod gan Lywodraeth y Cynulliad, wrth ddarparu cyllid i ysgolion, ddyletswydd i sicrhau bod cyllid o'r fath yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.  Awgrymodd yr Athro Egan bod angen asesu effaith polisi integredig ar frys er mwyn deall effaith ysgolion bro ac felly benderfynu ar y lefel briodol o adnoddau i'w darparu. Roedd yr Aelodau'n ystyried y dylid monitro effaith ysgolion bro yn well a phwyllo mwy wrth ddyfarnu grantiau i brosiectau bro, er mwyn sicrhau eu bod wedi'u cynllunio'n briodol, ynghyd â sicrhau cyllideb fwy ar gyfer ariannu prosiectau o'r fath.  Tra'n cydnabod bod ysgolion bro yn rhaglen gyffredinol, roedd yr Aelodau'n ystyried hefyd y gallai prosiectau mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol mawr gael eu blaenoriaethu gyda'r bwriad o effeithio ar dlodi plant.

112. Yn ogystal â goblygiadau ariannu uniongyrchol, mynegodd yr Athro Egan bryderon hefyd bod goblygiadau mewn perthynas â rhesymoli lleoedd ysgol yn codi yn sgil ysgolion bro, gan ddweud:

> "O ystyried y ddadl dros yr angen i resymoli lleoedd ysgol yn helaeth yng Nghymru o ganlyniad i ostyngiad sylweddol yn nifer y disgyblion, gan arwain at y posibilrwydd o raglen fawr o gau ysgolion dros y degawd nesaf, a yw'r mater o ysgolion bro wedi cael ei ystyried yn ddigonol? Unwaith eto, mae'n ymddangos nad dyma'r achos".

113. Roedd ESTYN hefyd wedi gweld bod hyn yn bryder, ac yn argymell y bod angen i gyfrifiadau ynglŷn â lleoedd gwag mewn ysgolion ac anghenion ysgolion newydd o ran adeiladau ystyried y cyfleusterau y byddai eu hangen ar gyfer gweithgareddau ysgolion bro.

**Argymhellodd y Pwyllgor bod:**

**27. Llywodraeth y Cynulliad yn galluogi'r gwaith o sefydlu mwy o ysgolion bro sydd wedi'u hariannu'n briodol a'u cynllunio'n dda gan ddechrau gydag ardaloedd o anfantais economaidd-gymdeithasol mawr.**

**Crynodeb o Argymhellion** **Atodiad 1**

**Argymhelliad 1**
Bod Llywodraeth y Cynulliad Cymru yn sicrhau mwy o adnoddau mewnol sydd wedi'u neilltuo ar gyfer cydgysylltu polisïau sy'n effeithio ar dlodi plant. Dylai hyn gynnwys mwy o staff ar gyfer ei Huned Tlodi Plant i gydgysylltu polisïau sy'n mynd i'r afael â thlodi plant. Hefyd, dylai gynnwys uwch swyddog arweiniol polisi, ym mhob Adran, i fod yn gyfrifol am gyflawni targedau adrannol perthnasol o fewn '*Dileu Tlodi Plant yng Nghymru - Mesur Llwyddiant'.*

**Argymhelliad 2**
Bod Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau cyfranogiad gweithwyr proffesiynol rheng flaen (gan gynnwys undebau'r athrawon) cyn gynted â phosibl yn y broses datblygu polisi, yn hytrach na dim ond trwy ymgynghori ffurfiol ar ôl datblygu polisi.

**Argymhelliad 3**
Bod Llywodraeth y Cynulliad yn paratoi Strategaeth a Chynllun Gweithredu Tlodi Plant wedi'u diweddaru a'u hailwampio, gan ystyried mentrau newydd a newidiadau mewn rhaglenni sy'n bodoli eisoes, megis Cymunedau yn Gyntaf a Chymunedau Nesaf.

**Argymhelliad 4**
Bod Llywodraeth y Cynulliad yn dangos ymrwymiad clir i sicrhau bod yr holl bolisïau yn cael eu prawfesur o safbwynt tlodi plant. Dylai hyn gynnwys:

a) cyhoeddi targedau blynyddol penodol ar gyfer pob Portffolio Gweinidogol, i fynd i'r afael â Thlodi Plant;
b) cyhoeddi cynnydd pob portffolio Gweinidogol tuag at gyflawni'r targedau hyn bob blwyddyn; a
c) chynnal trafodaeth flynyddol wedi'i threfnu, yn amser y Llywodraeth, ar gynnydd Llywodraeth y Cynulliad tuag at fodloni'r targedau hyn.

**Argymhelliad 5**
Dylai Llywodraeth y Cynulliad adolygu a rhesymoli'r gwaith o ariannu asiantaethau lleol gyda'r bwriad o sicrhau cydlyniant yn ei holl drefniadau ariannu.

**Argymhelliad 6**
Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau, wrth wneud cais am unrhyw 'gyllid nad yw'n rheolaidd' yn hytrach na chyllid craidd, y dylai fod yn angenrheidiol i awdurdodau lleol ddangos sut bydd yr arian a roddir iddynt yn effeithio ar allu'r awdurdod i fynd i'r afael â thlodi plant.

**Argymhelliad 7**
Dylai Llywodraeth y Cynulliad adolygu'r canllawiau statudol yng Nghylchlythyr 23/02, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2002, fel ei bod yn angenrheidiol i gynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion neu resymoli lleoedd ysgol, gynnwys datganiad asesu effaith yn rhoi manylion o'r ffordd y bydd y cynnig yn effeithio ar allu'r awdurdod i gynorthwyo'r gwaith o ddileu tlodi plant.

**Argymhelliad 8**
Bod Llywodraeth y Cynulliad yn cyflwyno proses fwy effeithiol o fonitro a gwerthuso effaith polisïau, gan gynnwys astudiaethau hydredol. Dylai monitro fod yn un o'r gofynion allweddol ar gyfer awdurdodau lleol wrth iddynt wneud cais am gyllid grant, gydag arian Rhagori yn gysylltiedig â monitro perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, er enghraifft. Ni ddylai'r broses fonitro ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar gyrhaeddiad addysgol, ond yn hytrach dylai hefyd gynnwys targedau sy'n ymwneud â gofal bugeiliol, megis y nifer sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol yn barhaol.

**Argymhelliad 9**
Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod arferion da o ran mynd i'r afael ag effeithiau tlodi yn cael eu lledaenu'n well ymysg ysgolion a lleoliadau addysg ffurfiol ac anffurfiol.

**Argymhelliad 10**
Dylai Llywodraeth y Cynulliad sefydlu'r wefan Rhagori arfaethedig ar frys er mwyn hyrwyddo'r gwaith o rannu syniadau ac arferion da.

**Argymhelliad 11**
Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod mwy o addysg tlodi yn cael ei chynnwys mewn hyfforddiant athrawon prif ffrwd ac wrth hyfforddi gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn lleoliadau addysg. Dylai'r addysg hon gwmpasu effaith tlodi ar blant a'u haddysg. Hefyd, dylai gynnwys cyfrifoldebau athrawon i ddarparu gofal bugeiliol.

**Argymhelliad 12**
Dylai Llywodraeth y Cynulliad gynnal adolygiad o ddehongliad 'Codi Safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith: Cytundeb Cenedlaethol' mewn perthynas â chyfrifoldebau athrawon i hwyluso'r gwaith o ddarparu gofal bugeiliol. Dylai'r adolygiad hwn benderfynu a yw'r ffordd y mae'r cytundeb wedi'i ddehongli yn llesteirio athrawon, heb gyfrifoldebau penodol dros ddarparu gofal bugeiliol, rhag bod yn sensitif o ran anghenion disgyblion mewn tlodi, neu sy'n wynebu rhwystrau eraill i ddysgu. Os yw'r cytundeb yn cael ei ddehongli fel hyn, dylai Llywodraeth y Cynulliad roi cyfeiriad clir i awdurdodau addysg ac ysgolion, gan egluro cyfrifoldeb parhaol pob athro i fod yn sensitif i faterion tlodi cymdeithasol, a materion cymdeithasol eraill, wrth ryngweithio gyda disgyblion a chyfeirio disgyblion i gael cymorth ychwanegol os yw'n briodol.

**Argymhelliad 13**
Bod Llywodraeth y Cynulliad yn galluogi'r gwaith o fonitro nifer y plant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol tlotach a oedd yn manteisio ar frecwast am ddim mewn ysgolion ac yn comisiynu ymchwil i fanteision posibl diwygio amseroedd y clybiau brecwast. Gallai hyn gynnwys monitro a oedd ysgolion ac awdurdodau lleol yn sicrhau bod brecwast am ddim ar gael. Ni fyddai monitro fel hyn yn cynnwys nodi plant a phobl ifanc.

**Argymhelliad 14**
Bod Llywodraeth y Cynulliad yn galluogi'r gwaith o fonitro'r nifer a oedd yn manteisio ar brydau ysgol am ddim, gan gynnwys monitro gwerth maethol prydau o'r fath.

**Argymhelliad 15**
Bod Llywodraeth y Cynulliad yn comisiynu ymchwil i ba mor ymarferol oedd cyflenwi prydau ysgol am ddim i bawb ar gyfer plant o wahanol oedran.

**Argymhelliad 16**
Bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried gweithredu cynllun peilot ar gyfer darparu prydau ysgol am ddim i bawb.

**Argymhelliad 17**
Bod Llywodraeth y Cynulliad yn comisiynu ymchwil i effeithiolrwydd cynlluniau i leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â phrydau ysgol am ddim.

**Argymhelliad 18**
Bod Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau bod mwy o gymorth a hyfforddiant ar gael i lywodraethwyr ysgol ar dlodi plant.

**Argymhelliad 19**
Bod Llywodraeth y Cynulliad yn darparu canllawiau statudol i lywodraethwyr ac arweinwyr ysgolion ar y math o arweinyddiaeth y dylen nhw fod yn ei rhoi i fynd i'r afael â thlodi plant. Dylai'r canllawiau hyn gynnwys camau ymarferol megis cydbwyso gwerth addysgol teithiau preswyl yn erbyn eu cost ariannol. Dylai'r canllawiau hyn fod ar gael i rieni, gofalwyr a disgyblion hefyd.

**Argymhelliad 20**
Bod Llywodraeth y Cynulliad yn comisiynu ymchwil i'r rhesymau pam fod cynnydd addysgol fel petai'n dirywio ym mlynyddoedd cynnar yr ysgol uwchradd, gan gyfeirio'n arbennig at blant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol tlotach.

**Argymhelliad 21**
Bod Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi dyletswydd benodol ar bob ysgol sy'n cael ei hariannu'n gyhoeddus i hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol.

**Argymhelliad 22**
Bod Llywodraeth y Cynulliad yn cychwyn astudiaeth o gostau addysg er mwyn darparu tystiolaeth gynhwysfawr i gynorthwyo'r gwaith o lunio polisi sy'n mynd i'r afael â chostau o'r fath.

**Argymhelliad 23**
Bod Llywodraeth y Cynulliad yn monitro i ba raddau y mae ysgolion yn cydymffurfio â'i chanllawiau ar wisg ysgol.

**Argymhelliad 24**
Bod Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau mwy o gysondeb rhwng ysgolion, ac ar draws awdurdodau, ynglŷn â lleihau costau ychwanegol addysg cymaint â phosibl. Dylai hyn gynnwys canllawiau statudol clir gan Lywodraeth y Cynulliad ar leihau costau o'r fath a chynnwys cyngor ymarferol ar gydbwyso gwerth addysgol teithiau o'r fath yn erbyn eu costau ariannol. Dylai hyn rhoi cyfle cyfartal i bob plentyn gymryd rhan heb achosi stigma oherwydd cyfangiadau ariannol neu ddiwylliannol.

**Argymhelliad 25**
Bod Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau mwy o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd o'r canllawiau ynghylch costau teithiau ysgol i rieni a gofalwyr a'r cymorth sydd ar gael iddynt.

**Argymhelliad 26**
Bod Llywodraeth y Cynulliad yn darparu canllawiau i ysgolion ar hyfforddi a sefydlu aelod o staff fel swyddog cyswllt ysgol ar gyfer gofalwyr ifanc, gyda chyfrifoldeb am fynd ati i nodi ac ymgysylltu gyda gofalwyr ifanc a gweithwyr cymorth, a chysylltu'n fewnol gyda staff addysgu eraill.

**Argymhelliad 27**
Bod Llywodraeth y Cynulliad yn galluogi'r gwaith o sefydlu mwy o ysgolion bro sydd wedi'u hariannu'n briodol a'u cynllunio'n dda gan ddechrau gydag ardaloedd o anfantais economaidd-gymdeithasol mawr.

## Cylch Gorchwyl

Dyma'r cylch gorchwyl ar gyfer Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Dlodi Plant:

- Craffu'r gwaith o gyflawni polisïau Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â thlodi plant, yn benodol, y strategaeth tlodi plant, *Dyfodol Teg i'n Plant* (Chwefror 2005) a'r *Cynllun Gweithredu Tlodi Plant* (Tachwedd 2006).

- Nodi'r meysydd hynny lle mae problemau arbennig o ran gweithredu a chyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.

- Gwneud argymhellion ar sail tystiolaeth i Lywodraeth y Cynulliad ac eraill fel bo angen.

## Cwmpasu'r Ymchwiliad

Ystyriodd yr Aelodau mai pryder arbennig a fynegwyd gan y tystion yn eu cyfarfod cwmpasu cynnar oedd, mai prin iawn oedd y dystiolaeth bod polisïau i fynd i'r afael â thlodi plant yn cael eu cydgysylltu'n strategol a chydlynol, er gwaethaf llawer o syniadau a pholisïau arloesol Llywodraeth y Cynulliad.

Penderfynodd yr Aelodau y byddai eu hymchwiliad presennol yn canolbwyntio ar edrych ar faes polisi arbennig, er mwyn gweld a oedd wedi'i brawfesur o ran cael effaith sylweddol ar dlodi plant. Penderfynodd yr Aelodau y byddai'r ymchwiliad cychwynnol hwn i dlodi plant yn canolbwyntio ar bortffolio addysg Llywodraeth y Cynulliad.

## Dyma'r Dystiolaeth Lafar a dderbyniwyd:

6 Mawrth 2008:
- Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

24 Ebrill 2008:
- Barnardo's Cymru
- Plant yng Nghymru
- Gweithredu dros Blant Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Achub y Plant
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

8 Mai 2008:
- Y Dirprwy Weinidog dros Adfywio
- Huw Lewis AC, Cadeirydd y Grŵp Arbenigol ar Dlodi Plant yng Nghymru, a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor fel unigolyn

11 Mehefin 2008:

- Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
- Yr Athro David Egan, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd, Sefydliad Joseph Rowntree
- Dechrau'n Deg, Bro Morgannwg

25 Mehefin 2008

- Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr Cymru
- Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol  Cymru
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

9 Gorffennaf 2008

- Grŵp Gofalwyr Ifanc, wedi'i hwyluso gan Gweithredu dros Blant Cymru
- Grŵp Pobl Ifanc, wedi'i hwyluso gan Achub y Plant a Phrosiect Ieuenctid Tanyard

**Tystiolaeth Ysgrifenedig**

O ystyried bod yr ymchwiliad hwn yn un byr a chyfyngedig, dewisodd y Pwyllgor beidio â gofyn yn ffurfiol am dystiolaeth ysgrifenedig.  Fodd bynnag, derbyniwyd tystiolaeth ysgrifenedig gan:

- Barnardo's Cymru
- Cyngor Ar Bopeth Cymru
- Rhwydwaith Tlodi Plant Cymru
- ContinYou Cymru
- ESTYN
- Gweithredu dros Blant Cymru
- Yr Athro David Egan, Athrofa Prifysgol Cymru, Sefydliad Joseph Rowntree
- Achub y Plant
- Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru
- Y Dirprwy Weinidog dros Adfywio
- Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
- Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
- Prosiect On Track Pendyrus
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru